

Llin gurt yw yn llawn gurir awen,  
Y byd a lanwodd o'i ben,

TWM O'R NANT.

Wyneb-ddalen.

# Gwalth Twm o'r Nant.



- I. AT Y CYFAILL MYFYR.
- II. TRI CHRYFION BYD.

"Da y dywedodd Thomas o'r Nant."

MARI LEWIS yn *Rhys Lewis*

"Edrychwch chwi ar ol y defaid, edrychaf finnau  
ar ol y bleiddiaid."


TWM O'R NANT wrth Charles o'r Bala

Llanuwchllyn: AB OWEN

1909 .







## Twm o'r Nant.

AT Y CYFAILL MYFYR.

**T**N gymaint ag i amryw ddynion fy annog i ysgrifenu Hanes fy Mywyd, o'm genedig-aeth, neu yn hytrach o'r hyd yr wyf yn sicr o gofio; minnau, gan obeithio na bydd yn dram-gwydd i neb, nag yn ddianrhydedd i'r Holl-alluog, yr hwn a'm gwaredodd o amryw o ddamweiriau peryglus o'r pryd yr oeddwn yn ddwy flwydd a hanner oed hyd heddyw, oblegid i mi glywed fy nhad a mam, ac eraill, oedd yn hollol wybodus o'm dechreuad, mi anturiaf osod i lawr gynifer o'r pethau neilltuol a glywais ac a brofais yn fy nghoffadwriaeth am danaf fy hun.

Yr wyf yn gyntaf-anedig i dad a mam, ac yn tarddu o genhedlaeth tu mam trwy Prysiad Plas Iolyn, ac o du tad o hil trigolion Dyffryn Clwyd, sef Cawryd, Cadfan, ac eraill, hyd onid aethant fel yn wehilion y genedl honno cyn i mi ddeillio o honynt, sef gan mwyaf yn dylodion ac yn annysgedig, o ran medru ar lyfrau, ond y medr oedd ynddynt yn ol natur gyffredin, fel creaduriaid eraill. Ac o lwynau pa rai fe y'm dygwyd i'r byd mewn lle a elwir Penparchell

\* Y gair Penporchell sydd o gam ddywedriad am y lle; canys Pen Parc Llwyd a ddylai fod; oblegid Iorwerth Llwyd oedd enw Iolo Goch, a pharc iddo ef oedd y dref ddegwm honno; ac hi a gyfenwid cyn i dafodau pobl y wlad gam dreiglo y gair o Benparcllwyd yn Benporchell.

Isaf, yn mhlwyf Llanefydd, ar dir ag a fu yn etifeddiaeth Iolo Goch, arglwydd Llechryd, sef ei dŷ ef oedd Coed y Pantwn, ac ef a'i feibion a gladdwyd ym monachlog Eglwysegl, gerllaw Llangollen.

Ond i ddyfod at fy addewid, mewn perthynas i'm treigliad yn y blaen. Mae yn debygol ddarfod blino ar gwmpeini o'r fath ag oeddym ni yn nhy fy nhaid a'm nain; fe orfu iddynt symud i'r naill gwrr i'r tir, i le a elwir Coed Siencyn, lle buwyd gylch blwyddyn neu ragor, a hynny cyn y Rhew Mawr, pryd yr oedd y farchnad yn ddrud iawn, a'r gwanwyn canlynol fe ddaethpwyd i'r Nant, gerllaw Nantglyn, yng nghwrr plwyf Henllan, lle mae lle a'i enw Cwm Pernant, neu Gwm Abernant, lle bu un Sion Parry, prydydd ag oedd yn perchenogi y lle hwnnw. A'r Nant sydd ganol o dri thy yn y cwm hwnnw, sef y Nant Isaf. Ac yn y Nant Uchaf yr oedd pobl a chanddynt fachgen at yr un pryd ag yr oeddwn innau yn dechreu codi allan; ac oblegid eu bod hwy yn fwy ardderchog o ran pwer ac ablwch, gan nad oedd yno ond dau blentyn, ac o honom minnau ddeg, ac o barthed hynny fe'm galwyd i yn Dwm o'r Nant, ac yntau yn Domas Williams.

Ond cyn neidio yn rhy bell o'r dechreu, yr wyf yn cofio, pan oeddwn ychydig dros dair blwydd oed, a myfi yn dyfod gyda fy mam oddi wrth y pistill o nol dwfr, ac yr oedd ar gornel y ty ysgol galchu wyth lath o hyd, ac wedi ei rhoddi i rwystro y gwynt godi y to; minnau, yn lle dilyn fy mam, aethum i ben uchaf yr ysgol. Ac ewythr imi, frawd fy nhad, a'm tad bedydd innau, ddaeth heibio. Minnau a ddywedais,—“Edrych yma,

tada bedun, lle dw i." Yntau, gan ddywedyd yn deg wrthyf, rhag i mi ddychrynu a thorri'n ngwddwf, a ddaeth ac a'm cymerodd i lawr; ac ni chafodd fy mam ddim gwybod pryd hynny rhag iddi gael dychryn.

Gwedi hynny ar fyrr, pan oedd fy mam wedi fy ngadael i a'm chwaer yn y gwely y boreu, a myned i ryw neges i dy cymydog, pan ddeffroais i a dechreu galw "Mam," heb neb yn ateb, mi a gymerais fy esgidiau ar fy nhraed, a'm het am fy mhen, ac aethum i dy fy nain yn noeth lymun. Ond fy nain a'm cymerth ac a'm rhoddes mewn gwely cynnes. A chyn pen hir dyma fy mam yn dyfod, wedi ameu pa le gallwn fod, a'm dillad yn ei ffedog, a'r wialen fedw yn ei llaw. Fe fu yno ffwdwr mawr; un am fy achub a'r llall am fy ngheryddu; ond, beth bynnag, mi gefais fy hoedl gydrhyngddynt.

Yr oedd fy mam yn fy ngwarchae, fel ag y daethum yn y blaen; ni feiddiwn i na thyngu nac enwi Duw yn ofer; ac yn wir, drwy drugaredd, fe safodd yr addysg honno wrthyf byth. Pan oeddwn yn blentyn, fe fyddai arnaf ofn Duw; ac ofn, pe buasai i mi alw y cythraul, y daethai i'm nol yn y funud.

Ond ymhen ychydig, oddeutu chwech neu saith mlwydd oedran, daeth ysgol rad i Nantglyn; mi a gefais fyned yno i ddysgu y llythyrenau. Ond yr oedd llawer o son ymysg hen wragedd cyfarwydd y wlad y byddai iddynt fyned a'r holl blant i ffordd pan ddelent yn fawrion, oblegid eu bod yn rhoi eu henwau i lawr; ond beth bynnag, ni chlywais i un o honom fyned. Ond fe aeth y frech wen a myfi adref yn sal; ac yn ol gwella o

honno yr oeddwn yn rhy gryf i allu hyfforddio colli gwaith ac amser i fyned i'r ysgol; fe orfu i mi ddysgu gyrru yr ychen i aredig a llafurio yn hytrach na dysgu darllen; ond fe fyddai fy mam yn adgofio i mi yr egwyddor yn fynych iawn.

Yr oeddwn erbyn hyn cylch wyth oed; a'r haf hwnnw mi gefais fyned i'r ysgol drachefn am dair wythnos; a phan gyntaf y dysgais ysbelio a darllen ambell air, mi a ddechreuais fyned yn awchus iawn i ysgrifenu; mi heliais gnotiau yr ysgaw i wneyd inc, ac a dreuliais hynny o ochrau dalennau llyfrau ag a ddown o hyd iddynt. Ond o ddamwain fe aeth siop yn dref ar dân, ac a losgodd gan mwyaf oll, ond ambell ddarn a safiwyd; ac ym mhlith y darnau llosgedig fe gafodd fy mam am geiniog ryw gynnifer o bapur-lenni llosgedig eu corneli, ac a wniodd i mi gopi. Minnau aethum at y gof i Waen Dwysog, ac fe ysgrifenodd yr egwyddor ymhen uchaf y dalennau; a gofalus iawn a fum yn canlyn ar lanw yr holl bapur, yn gyffelyb i ol traed brain. Cael papur ac inc, ac ambell gopi gan hwn a'r llall, hyd oni ddysgais ddarllen Cymraeg, ac ysgrifenu ar unwaith.

Mi a ysgrifenais lawer o gerddi, a dau lyfyr interliwd, cyn bod yn naw oed; ac wrth weled fy athrylith i ddysgu fe ddaeth hwn a'r llall i edliw i'm rhieni na baent yn fy rhoi i ddysgu Saesneg; ond wrth hir addaw hwy a'm gadewasant i fyned i'r dref i'r ysgol, lle bum am bymthegnos yn dysgu Saesneg; a dyna'r cwbl. Fe orfu imi ddyfod adref i wneyd rhywbeth am fy mara, a thuag at gynnal y plant eraill.

Ond gan faint oedd fy awydd i ddysgu, mi a ganlynais arni o hyd. Pan ddown o'r maes i'm pryd bwyd, mi awn at dreser, lle yr oedd droar a phapurau gennyf, ac ysgrifenwn, er allent hwy yn peri imi gymeryd bwyd; a'm heithaf lawer pryd oedd cipio tamaid o frechdan yn fy llaw, a hynny gyda llawer o ddrwg, eisieu bwyta llaeth neu botes, yn lle yr ymenyn. Ond ar un tro, wrth yrru y wedd gyda'r clawdd, fe rwygodd draenen neu fieren fy labet oddiwrth fy nghwat, se'm tarawodd fy nhad, gan fy rhegi, ac edliw mai gwell oedd gennyf drin fy mhapurau cythraul na thori'r mieri oedd yn rhwygo fy nillad ac yn tynnu gwlan y defaid. Minnau tan ysnwffian crio ac yn addunedu os fi ai byth i'r ty y llosgwn i yr holl bapurau. Ac yn fy ystyfnigrwydd y nos-waith honno mi losgais ryw becyn o ysgrifeniadau, o'r fath ag oeddylt hwy.

Yr oeddwn erbyn hyn cylch deg oed; ac er llosgi y llyfrau, yr oedd yr hen natur yn llosgi ffordd arall am gael canlyn ymlaen ar drin papurau. Mi aethum yn gyfaill â hen gowper gerllaw Nantglyn, yr hwn oedd yn fawr ei athrylith am ysgrifenu gwaith prydyddion, sef cerddi a charolau, &c. Ac ar fyrr amser wedi hyn, mi aethum yn gyfaill âg un arall, o'r un fath natur am hel llyfrau, sef hen ddyn oedd yn Mhentre'r Foelas, yn darllen yn v capel y Suliau ac yn cloccio amserau eraill. Cefais fenthyg hen lyfrau gan hwnnw lawer gwaith. A thrwy bob peth a'u gilydd, mi ddysgais ysgrifenu yn lled dda yn y cyffredin o'r gymydogoeth honno. Yn ganlynol, mi aethum yn gyfaill âg un arall oedd yn brydydd, heb fedru darllen nag ysgrifenu; ac yr oedd ef yn un natur-

iol iawn o ran lithrigrwydd ei awen am y mesurau tri neu bedwar bar. Efe a gyfenwyd Twm Tai yn Rhos. Fe wnaeth imi englyn, i'w roi mewn llyfyr oedd gennyf o gasgliad cerddi :—

Twm Ifan, wiwlan alwad—yn bwer  
A biau'r darlleniad;  
Heliai gerdd i lenwi'r wlad,  
Dew gywaeth rhwng dau gauad.

Twm, neu Thomas Evan, yr oeddwn i yn ysgrifenu fy enw cyn myned y pymthegnos hynny i'r dref i ddysgu Saesneg; dyna'r pryd i'm cyfenwodd hwnnw fi yn Thomas Edwards, oblegid mai Evan Edwards oedd enw fy nhad, ac na fyddai ond basdarddiaid yn myned ar ol yr enw cyntaf. Peth bynnag, mi gefais yr anrhydedd o fod yn ysgrifenydd i'r hen brydydd; pan wnaï ef gân, fe ei cofiai hyd nes deurn ato. A phan fyddai yr hen wr yn dywedyd ei waith, mi godwn weithiau i ymresymu âg ef, oni byddai y peth yn well ffordd arall; braidd nad oedd ef yn eiddig-eddu wrthyf, rhag fy mod yn gwneyd artaith ar ei waith ef. Ond cyn fy mod yn ddeuddeg oed, fe gododd saith o lanciau Nantglyn i chwareu interliwd, a hwy a'm cymerasant innau gyda hwynt, rhwng bodd ac anfodd i'm tad a'm mam, i chwareu part merch; oblegid yr oedd gennyf lais canu a'r goreu ag oedd yn y gymydogeath. Mi gefais y part i'w ddysgu mewn cwrw gwahawdd i ddy n tylawd, yn y Fach, yn agos i Felin Segrwyd, lle y telais y tair ceiniog cyntaf erioed am gwrw. Felly ni a ddysgasom chwareu yn ganolig yn ol y dull ag oedd y pryd hynny. Minnau yn hogyn â'm holl ddymuniad ar ddarllen ac ysgrifenu, oeddwn yn athrylithgar iawn am

ganu ; mi wnaethum interliwd (ar y llyfyr elwir "Priodas Ysbrydol," gan Bunyan) braidd i ben, a hynny heb wybod i neb ; ond fe ddaeth rhyw lanc o sir Fon heibio y Nant, ac a gafodd lethy ; ac ef oedd ysgolhaig, a thipyn o'r natur ynddo, minnau mewn caredigrwydd yn dangos pob peth iddo ag oedd gennyf, yntau wrth fyned ymaith a ddygodd gan mwyaf o'm llyfyr. Braidd na-ddigalonaswm y pryd hynny rhag prydyddu rhagor. Mi aethum gyda llanciau eraill o gylch Nantglyn i chwareu drachefn, pan oeddwn gylch 13 oed. Yr oeddwn erbyn hyn, os yr un, yn ddoethach na hwy oblegid y mater. Fe ddaeth fy natur yn rhyw gref i'w gorchuddio ; yr oedd hwn a'r llall yn dechreu taenu fy mod yn brydydd, a nhad a mam yn ysgyrnygu yn arw rhag fy mod yn fy ngwneyd fy hun yn bricsiwn. Ond pe buaswn fwy gwaradwydd neu bricsiwn, i'm fy hun a'm cenedl, hynny fu.

Mi wnaethum interliwd cyn bod yn bedair-arddeg oed yn lân i ben ; a phan glybu nhad a mam nid oedd i mi ddim heddwch i'w gael ; ond mi beidiais a'i llosgi ; mi a'i rhoddais i Hugh o Langwm—prydydd enwog yr amser honno ; yntau a aeth hyd yn Llandyrnog, ac a'i gwerthodd am chweugain i'r llanciau hynny, pa rai a'i chwareuasant yr haf canlynol. Ond ni chefais i ddim am fy llafur, oddi eithr llymaid o gwrw gan y chwareyddion pan gwrddwn a hwynt. Yr oedd hyn, i ganlyn pethau eraill, yn anogaeth i'm dal yn ol rhag prydyddu, pe buasai ddim yn tycio.\*

\* Mi a wnaethum ddwy interliwd, un i bobl Llanbedr. Dyffryn Clwyd, a'r llall i lanciau Llanarmon yn Ial, un ar destyn "Gwahanglwyf Naaman," a'r llall ynghylch "Hypocrisia." megys ail wneuthuriad o waith Richard Parry o'r Ddiserth.—Pan oeddwn yn ieuanc, yr oedd cymaint o gynddaredd, neu

wylltineb ynof, am brydyddu, mi a ganwn braidd i bob peth a welwn; a thrugaredd fu i mi na buasai rhai yn fy lladd, neu yn fy llabyddio am fy nhafod ddrwg. Llauer a beryglodd fy rhieni arnaf, mai hynny a fyddai, oni chymerwn ofal rhag dilyn y ffordd honno. Rhyw dro yr oeddwn gyda chyfeillion drwg, fel fi fy hun, mi a ddigwyddais dafu gair penrhodd, lle yr oedd tri neu bedwar o garwyr, oedd yn arfer o gadw cwmpeni merch ieuanc o'm cymydogaeath, oedd yn byw mewn lle a elwid Ty Celyn. Minnau a ddywedais mewn dysgwrs mai carliaid y Ty Celyn oeddynt hwy. Fe glybu'r ferch, ac a gymerodd yn angharedig oblegid fy ngeiriâu drwg; ac yr oedd iddi frawd o ymladdwr creulawn. Fe gymerodd hwnnw blaid neu bart ei chwaer i'm ceryddu; ac ryw nos Sul fe a'm gwaetiodd yn dyfod o Nantglyn; ac yr oedd ffordd pob un i ddyfod gyda'n gilydd hyd y llwybr adref; ac ef oedd a'i fwriad ganddo am fy nghuro, ac yr oedd ganddo ddarn o bren derwen taclus at yr achos; ac ar ol ymdderu peth hyd y ffordd, fe dafloodd y pren i lawr, ac a dynnod yn noeth lymun, minnau a dynnais fy nghwat a'm cadach, ac a gymerais ei bren ef yn ty llaw, yntau a aeth i'r gwrych ac a gymerodd bawl, a churo wnaethom yn ffyrnig iawn. Erbyn curo ennyd, yr oedd y prennau yn ddelst, ac yn lled fyrion. Yr oeddem weithiau ar lawr, a dal i guro er hynny; ond fe ddaeth rhagor o edrychwyr i feddwl ein rhwystro; ac ni fynnai ef mo'i rwystro. Felly ni a gytunasom i dynnu polion ffres—a churo a fu, hyd nes oni aeth i fethu sefyll; mae y creithiau arno ef a minnau hyd heddyw. Ond yn y diwedd, yn llawn o waed colledig, fe ddarfu i'w gymydogion ei gynllwyn ef adref, a sal iawn a fu, a rhai yn barnu y byddai farw; a thrannoeth fe ddaeth alarwm o'i blegid; minnau a ddiengais dros y mynydd i Bentre'r Foelas, at yr hen Sion Dafydd, i drin hen lyfrau. Ac wrth ddarllen rhyw bethau ar gist wrth y ffenestr, yr oeddwn yn aroglu drewi mawr; meddwl weithiau fod gan yr hen wr ryw ffeidd-dra tu cefn i'r gist; ond erbyn chwilio'r mater, fy mraich i oedd yn drewi, ar ol cael ei bydru wrth ymladd. Oddivno, ar ol i ryw wraig ymgeleddu peth arnaf, mi a fum yn ffoadur bythefnos neu ragor, ym mhlwyf Bryneglwyys yn Ial, mewn lle a elwir Pennau'r Banciau, weithiau yn dyrnu, weithiau yn dal aradr a chloddio, a phob peth angenrheidiol, ac yn cymeryd gofal o hyd rhag i neb wybod fy helynt. Ond o'r diwedd mi aethum adref; yr oedd yntau yn dechreu codi allan. Fe fyynnwyd peth cyfraith arnaf, ond nid llauer. Ac vn ganlynol i'r cythrwfwl hwn, a dymuniad fy mam, mi a beidiais ag ymladd ar ol hynny, rhag digwydd imi beth a fyddai gwaeth.



Ond yn ganlynol, fel yr oedd fy natur i yn anorchfygol, mi a wnaethum interliwd drachefn, ar y testyn "Jacob yn dwyn bendith Esau:" a honno a actiwyd gan lanciau Nantglyn a minnau. Ac yn ol hynny gwnaethum interliwd "Jane Shore." Honno a actiwyd yn gyntaf gan lanciau Llanefydd; ac yn ganlynol gan lanciau Llanbedr Dyffryn Clwyd. Ac yn ol hynny, pan oeddwn gylch 20 oed, gwnaethum interliwd ynghylch "Cain ac Abel," i'w hactio rhwng pedwar dyn; ac mi a fum yn bedwerydd gyda lanciau Llan-sannan—ac ni a ganlynasom arni am flwyddyn.

Ac yn ol hynny, oblegid euogrwydd cydwybod, ac hefyd fy mod yn caru merch oedd yn tueddu at grefydd, wrth i mi ddyfod o le a elwir y Ro Wen, gerllaw Tal y Cafn, mi a daflais y cap cybydd tros ochr yr ysgraff i afon Gonwy.

Ac yn 24 o oedran mi a briodais fy ngwraig, ar y 19 ddydd o Chwefror, yn y flwyddyn 1763. A merch inni a anwyd yn yr un flwyddyn, Rhagfyr 26.

Ni a gychwynasom sefydlu ein bywoliaeth yn y Bylchau, ar fin y ffordd o Nantglyn i Lansanan, tyddyn ag oedd yn perthyn i'r Nant; ond fy mhobl i, yn enwedig un chwaer, oedd yn erbyn i ni aros yno; a minnau a gymerais ryw le bach islaw tref Ddinbych, a elwid yn Ale Fowlio. Buom yno gylch dwy flynedd, yn cymeryd gwair a phorfa oddiamgylch, ac yn cadw tair buwch a phedwar ceffyl, a'm gwaith oedd cario coed o Waenynog i Ruddlan. Ac yr oeddwn yn rhagori ar bawb o'r cariwrs eraill ar lwytho ac ar bob triniogaeth oedd yn perthyn i drin coed; ac o ran hynny byddai rhaid i mi helpu a ffwdro

gyda hwynt yn y coed, hyd oni aeth fy ngwraig i rwgnach fy mod mor ffol a chadw y ceffylau oddi wrth eu bwyd, a'm poeni fy hunan gyda phobl eraill. Felly, fy ngwraig a'm cynghorodd i ddyfod i lwytho brydnawn, pryd na byddai neb arall, y deuai hi gyda myfi i'm helpu; ac felly fu. Ond wrth hir ddal at hynny, a hithau yn feichiog, ac yn anystwyth i droi yn rowl y crean gyda throsolion heieirn, mi a ddyfeisiais fachu y ceffylau wrth y rhaff i godi y coed i'w llwytho. Ac yn ol dysgu y ceffylau i dynnu ac i ddal, yr oedd llwytho yn dyfod yn esmwythach i'r wraig a minnau; a dyna'r bachu cyntaf wrth raff crean yng Nghymru nac yn Lloeger. Ac yn ganlynol yr oeddym yn cael llonyddwch a hwylustra, yn rhagor bod trafferthu ymysg y cariwrs eraill.

Rhyw dro, ni a aethom i'r coed, ac a edrych-asom am lwyth; beth a welwn yn ochr y nant Gwaenynog ond llawer o ol traed ceffylau, ac arwydd fod yno drafferth fawr yn ceisio pren i fynv, ac yn lle iddo ddyfod, fe aeth ymhellach i'r Nant nag oedd yn y dechreu: a bu gorfod i ddau gariwr, ac wyth o geffylau, ei adael yno. Minnau a synnais beth uwchben y pren; ac yna, gyda fy nhri ceffyl a pheth ysgil, mi a'i tynnais allan ac a'i llwythais,—dim ond y wraig, y ceffylau, a minnau.

A Chalanmai, ymhen y ddwy flynedd, ni a ddaethom o'r Ale Fowlio i Ben Isa'r Dref, i ryw hen dŷ; ac mi ail adeiledais hwnnw, ac a wnaethum ystablau a chyfleustra yno.

A'r haf canlynol, yr oedd coed Bachvmybd i'w cario, a chyda rheiny y bum hyd ddiwedd y flwyddyn honno; ac yna fe ddaeth y clafr ar y

ceffylau, a'r rheiny yn meirw, a'r *gusp* neu'r *stagers* i orphen, a chwedi hynny y rhent, a'r *merchant* oedd arno arian gwedi myned i'r môr; ac yna fe redwyd arnaf am yr ardreth; a'r pryd hynny mi guddiais ddau geffyl, ac fe brynodd cyfaill y wagen, ac fe'm trystiodd am dani; ond fe werthwyd y cwbl oedd yn y tŷ; nid oedd gennyf un gwely i orwedd, ond gwellt, a rhyw faint o ddillad a brynnodd un o'r cymydogion, a'u benthycu i ni am dro. Yna nid oedd gennyf ddim i'w wneyd, ond cymeryd rhyw ddynan, ag oedd ganddo dri cheffyl, yn rhannog, ei dri ef a'r ddau oedd genyf finnau, a rhoi gwedd ar gerdded, ac efe yn dweyd mai efe oedd bia honno, ond ei fod ef yn talu i mi am help i lwytho, Felly cario yr oeddym i Dreffynnon a manoedd eraill; ac yr oedd yno walch o ŵr boneddig a elwid Mostyn o Galcoed, ac yr oeddwn yn ddyledus i hwnnw am beth rhent am borfa; ond nid oedd ef yn medru cael craff ar y wedd, gan ei bod yn enw un arall.

O'r diwedd mi a drewais wrth finars o swydd Fflint, a hwy a'm denasant i wneyd interliwd, minnau a wnaethum ar "Weledigaeth Cwrs y Byd" yn nechreu y *Bardd Cwsg*; a chwareu buom, bedwar ohonom; ac wrth chwareu, fe'm daliwyd yn y Brickill, tros Mostyn Calcoed, i tyned i'r jel. Minnau a roddais feichnafon tan y sesiwn; a rhwng hynny oedd y wedd yn ei ennill, a minnau wrth chwareu, mi a delais yr arian, gyda llawer o gost.

A phan ddaeth hi yn ddiwedd blwyddyn, mi a gedwais y wagen, ac un ceffyl, ac mi roddais heibio chwareu gyda rhai hynny, ac a wnaethum interliwd i'w hactio rhwng dau, ac mi a ganlynais

honno dros flwyddyn, ymbell ac yn agos, ac enillais lawer o arian. Ei thestyn oedd, "Ynghylch Cyfoeth a Thlodi." Ac yn ol hynny, mi a wnaethum un arall rhyngom ein dau, "Am Dri Chydymaith Dyn, sef y Byd, a Natur, a Chydwybod," ac a'i dilynasom mor ddyfal a'r llall. Ac wedi blino ar honno, mi a wnaethum un ar destun, "Y Brenin, a'r Ustus, a'r Esgob, a'r Hwsmon," ac ni a ganlynasom lawer ar honno. Mi a fyddwn yn arfer, pan ym min troi heibio chwareu, mi a'i hargraffwn, ac a'i gwerthwn; a gwerth hwylus oedd arnynt, a thâl da oddi-wrthynt.

Ac yn ol blino yn canlyn chwareu, mi a godais wedd, ac a aethum i gario o Gaer i dref Ddinbych, i siopwyr ac eraill. Yr oeddwn erbyn hyn yn lled gryno, gwedi cael pethau yn tŷ, a gwedd ganolig i gario. Ac felly dal at gario y bum hyd onid aeth y wagen sengl yn wagen ddwbl, a chwech o geffylau da yn ystlysau eu gilydd; phedwar o rai gweddol wrth y wagen gul. Fe dynnai y chwech bum tunell o bwysau; a'r wagen arall o gylch dwy dunell a hanner. Mi a fum felly yn dal i gario o Gaer cylch 12 mlynedd, nes y daeth rhyw genedl wenwynig o'r dref i ymryson ac i ostwng ar y cyflog, ac i wneyd pob cenfigen a ellynt. Yna mi a aethum yn lled ddifater am Gaer, ac a droais i gario coed. Mi a fum yn cario am hanner blwyddyn o Goed y Fron, sef coed Rug, oddiwrth Gorwen i Ruddlan, ac ambell waith i Gaer; ond yr oeddwn y pryd hynny, drwy pob peth, o gylch gwerth 300 o bunnoedd o'm heiddo fy hun. Ond fel yr oeddwn yn ffyrnig am wneyd fy ngoreu, mi a ymroddais i gario


coed o lawer o fannau pan aeth cario Caer yn waeth. Mi a fum yn cario coed mawr o Bathafarn, a Pharc Pysgodlyn, ac Euarth, a'r Plas Uchaf Llanfair, ac o'r Gyffylliog, ac o Fachymbyd Bach, a'r Fronheulog, a thrachefn o'r Waenynog a'r Segrwyd Uchaf, ac o'r Ty'n y Pwll, ac amryw fannoedd eraill.

Ac ar ryw dro pan oeddwn, fel y brenin Dafydd ar nen ei dŷ, yn ysgafala gartref, fe ddaeth ewythr i mi frawd fy nhad, a'm tad bedydd innau, i'r dref, gwedi ei ddal i fyned i Ruthyn am £30 o ddyled, ac yr oedd ef yn ddigon abl i dalu ond cael peth amser; felly fe yrwyd am danaf i fyned yn feichiau iddo ympirio y sesiwn. Felly yr aethum, a phan ddaeth yr amser mi a aethum ag ef at ei wr o gyfraith, yr hwn a'i daliasai, i Wrexham, a hwnnw a'i cynghorodd ef a minnau dalu iddo fel y gallai, y cymerai ef nhwy felly, yn swm bychan, a hynny a fu. Ond beth bynnag, yr hen wr oedd yn oedi talu, a'r cyfreithiwr yn rhoi cost bob tro hyd nes yr aeth yr arian yn fwy, ac o'r diwedd fe dorrodd fy ewythr i fyny: ac yna fe ddaeth ataf finnau dri o failiaid, minnau yn lled gyfrwysddrwg yn fy meddwl a ddywedais yn deg wrthynt, ac a'u meddwais, a'r un oedd a'r *writ* ganddo a ddaeth i'm gwely i at y gwas i gysgu; a phan gysgodd mi a hwyliais forwyn oedd gennyf i nol ei *bocket book* ef i gael i mi'r *writ*, ac felly fu. Ac ar fyrr mi a ofynnais i'r bailliaid pa le yr oedd eu pwr i aros yno; ac yna hwythau, gan edrych ar eu gilydd, a'r naill yn rhegi'r llall; a chwedi y cwbl, nid oedd ond troi cefnau y tro hwnnw. Minnau aethum at yr hwn yr oedd fy ewythr yn ddyledus, ac a gytunais i'm

hewythr a minnau dalu yr arian iddo ef fel y gallem; a hynny a fu. A'r cyfreithiwr a yrrodd gennad bwrpasol o hyd nos at y gofynnwr drachefn, yntau a roddes ei law wrth ryw bapur i'r atwrnai gyda'r gennad yn ol. Yna y cyfreithiwr a wnaeth *writ* â'i law ei hun, heb un sirydd na debid wrthi, ond ei waith ef ei hun. Minnau a sistiais am gael ei gweled, ac adnabum, ac eraill gyda mi, a'r hen writ yn tystio llaw y sirydd. Beth bynnag, mi yrrais, gydrhyngwyf a'm cymdogion, chwech neu saith o geisbwliaid i ffwrdd ar unwaith.

Beth bynnag, rhwng fod cario o Gaer wedi mynd yn waeth, a blinder ac ofn y gwalch hwnnw, mi a gymerais goed gan un Sion Stokes, o Groesoswallt, a'r coed oedd ar dir Dolobran, yn sir Drefaldwyn. Mi a gymerais y coed a'r ffarm hefyd, ac yno yr aethum. Yr oedd yno ffarm dda, a melin yn ei chanlyn, ac heb fod yn rhy ddud. Mi a fum yno yn cario ac yn hwylio i drin y tir, a gosod llawer o hono. Ond yng nghanol y cwbl, yr oedd y diawl ar waith, a chanddo dwrnel i bobi i mi yno fara lefeinllyd. Fe gafwyd yno *writ* yn fy erbyn; minnau a ddeallais ac a ddaethum at gyfreithiwr Dinbych, i ddeisyf heddwch am amser—fy mod mewn cychwynfa bywoliaeth yn y wlad honno; yntau a ysgrifnodd i mi lythyr, ac yn bur fwyn wrthyf, a pheri imi ei roddi â'm llaw fy hun i'r twrne hwnnw, byddai pob peth yn burion. Minnau yn llawen aethum ar gefn fy merlen adref; ac yno mi a ystyriais beth a allai fod yn y llythyr; cymerais goes pibell ac a'i dodais yn tân, ac a chwythais trwyddi i egoryd y sel; a phan





NANT GANOL, HENLLAN.

(*Darlun gan J. T. Price, Cefn y Gader, Llanellidan.*)

"Fe ddaethpwyd i'r Nant, gerllaw Nantglyn."

*I wynebu tud. 17.*



egorais yr oeddwn fel rheiny a'r arian yngenau'r ffetanau, yr oedd yno yn gynwysedig am i'r gwalch hwnnw ganlyn arnaf, mai goreu y cam cyntaf, fy mod yn ddigon abl i dalu.

Pan welais beth oedd yno, mi losgais y llythyr, ac a gymerais y carnau i'r Deheudir, at wr o'r Eglwysfach oedd gwedi prynu coed Abermarlais yn swydd Gaerfyrddin. Yr oedd ym Meifod, y plwyf lle yr oeddwn, *exciseman* o'r wlad honno, cefais *direction* o'r ffordd, ac ymaith a mi. Cychwynais ddydd Sadwrn, ac yno nos Sul, heb son wrth neb o'm teulu ond wrth fy merch hynaf.

Ac ar ol lled gytuno am waith cario, am 6ch. y droedfedd, o'r coed i Gaerfyrddin, daethum adre gynta gellais, ac a heliais y wagen ddwbl a'r ceffylau, wyth ohonynt, ac a wnaethym y goreu o'r ffordd. Ac mi adewais y wagen fach yno a'r teulu, dim ond y llanc a minnau aeth pryd hynny; yr oedd yn rhyhwyr gennyf gychwyn o sir Drefaldwyn. Ac yn ol cyrraedd yno, mi a gefais le da i'r ceffylau, a gadewais y llanc a hwythau yno, ac a ddaethum i nol fy ngwraig a'm tair geneth. Pacio rhyw betheuach i'w rhoi gyda cariwr i Fachynlleth; yr oedd gennyf lonaid cwd llestraid o lyfrau, a dillad hefyd mewn sachau. Ar ol i mi a'r merched ddyfod i ffordd, ni welais fyth ddim o'r eiddo, y wagon, na'r dillad, na'r llyfrau. Gyda llawer o flinder a thrymder calonnau, ni a ddaethum oll i ben ein siwrneu yn lled iach. Ni a fuom am ryw hyd heb gael lle i setlo i fyw heb-law ar aelwyd eraill; ond trwy ryw ragluniaeth fe ddarfu ein meist'r, y *timber merchant*, gymeryd *gate turnpike* am gan punt ac wyth yn y flwyddyn o rent; y ni i gael arian y *gate* at ein bywoliaeth,

a setlo y rhent wrth gario. Buom felly yn dechreu bwrw ein henflew yn rhyfedd, a minnau yn cario coed mawr iawn, na welwyd ar olwynion yn y wlad honno mo'u cyffelyb, nac yn odid wlad arall, am a glywais i. Llauer o goed a lwythais, ac aethum a hwy i ben eu siwrneu; rhai yn gan troedfedd, a chant a hanner, a dau gant, yn un darnau; a'r mwyaf, oeddynt yn ei alw brenin-bren, oedd yn ddau gant a phedair troedfedd a deugain. Yr oedd gennyf dri phar o olwynion yn cario hwnnw; y wagen oedd a dau fraich cryfion ar ei hyd, a rowl ar y canol, a'r trydydd par o'r tu ol yn cydgario, fel pe buasai ond pedair olwyn. Ond wrth ddyfod i'r coed i lwytho y pren hwnnw fe gododd pobl y wlad, o'r llannau a'r ffyrdd, fel pe buaswn yn y wlad yma yn chwareu interliwd, a llauer o'r bobl gyfarwydd yn dywedyd na lwythwn byth mono, na ddaliai'r taclau ddim i godi y fath bwysau. Yr oedd ef 45 troedfedd o hyd, a chwedi ei ysgwario yn lân: minnau a godais y crean uwchben ei flaen ef, ac fe'i cododd y ceffylau ef yn esmwyth; ac yna rhedais y par olaf mor belled ag y medrwn dano; ac yna symud y crean at ei ben bôn, a deisif ar y segur-wyr oedd yno neidio ar y gynffon; ac yna codi'r bôn a'i lwytho ar y wagan; ac yna gyrru ymlaen ac ail setlo yr olwynion olaf; yna myned i'r ffordd ac i Gaerfyrddin, heb gymaint a thorri linc tres. Ond gwedi myned i'r dref, at Borth Heol y Brenin, a'r ceffylau yn nwbl, ac yn llonaid y porth, a thalcen y pren yn taro yn yr *arch*; dyna luoedd o bobl y farchnad yn dechreu ymgasglu o'm cwmpas, ac yn tyngu nad awn byth ffordd honno; minnau, gwedi synnu peth, a gefais gan

rai oedd yno, trwy addo yfed atynt, fy helpu i facio yr olwynion yn eu holau; ac felly trwy fod amryw yn taro llaw ar y peth, mi a'i cefais hi yn ol; a chwedi hynny ni aethom, dri neu bedwar, i *yard yr Ivy Bush*, tŷ tafarn, lle yr oedd crystiau coed (yslabs) ac a gawsom eu benthaf, ac mi a'u gosodais hwynt o flaen yr olwynion olaf, yn glwt i godi y rheiny, fel y byddai i'r pen arall ostwng tan y bwa maen, ac felly y bu, a'r edrychwyr a roddasant fonllef groch wrth weled y fath beth, ac amryw o honynt a yfodd at y llanc a minnau, am ein gwyrthiau.

Gwedi yr holl bethau hyn, yr oedd yr hen gancr yn perthyn i mi eto. Beth a'm cyfarfu un diwrnod ond tri o'r hen deulu, ceisbyliaid sir Drefaldwyn; hwy a ddechreusant ymaffyd yn y wedd, a myned a hi i'r ty tafarn yn Llandeilo Fawr, yn agos i'r lle yr oeddwn yn cadw'r *gate*; minnau a aethum yn greulawn am i'r ceffylau gael mynd i'w ystabl eu hunain, ac iddynt hwythau setlo drannoeth. Beth bynnag, yn ymrafael yr aeth hi, a dechreu ffusto a wnaethum, ac mi gefais ddau i lawr, ac a ddeliais i guro; gyda hynny, dyma'r trydydd yn dyfod. Pan welodd hwnnw ei gyfeillion ar lawr, fe ddaeth tu cefn i mi, ac a ddechreuodd fy mesur; ond digwyddodd i hen was Rice, o'r Drefnewydd, ddyfod yno, ac fe gafwyd heddwch; a'r bailiaid a fynasant gonstabliaid, a chyda hwy y bum i yn ddrwg fy nghwrs trwy'r nos. A chyfeillion i mi oedd o amgylch y drysau: pe cawsent ryw faint o gyfleustra, hwy a fuasant yn dibenu y tri cheisbwl maes o law; ond ustus heddwch yn y dref a ddeisyfodd arnaf fod mor heddychol ag y medrwn, y mynnai ef wastadhau

y mater y boreu—ac felly y bu. Fe roddwyd ar ddau wr, un o'u tu hwy, ac un o'm tu finnau; a gofyn yr oeddynt oedran y ceffylau, minnau yn eu rhoi yn hen iawn, a rhai yn ddeillion, fel y rhoid digon bychan o bris—ac felly fu. Mi a ddaethum yn well nag y disgwyliais; un yn prynnu a'r llall yn gwerthu, mi a'u cefais yn ol, trwy dalu ynghylch hanner canpunt.

Ar ol hynny, mi a ddaethum yn fwy adnabyddus ac yn fwy fy mharch ymlith estroniaid nag o'r blaen, trwy iddynt ddeall mai cam oeddwn yn ei gael.

Y *gate* oedd y flwyddyn gyntaf yn lled gwla o ran proffit; yr oedd fy merch hynaf yn rhoi y cwbl i lawr a dderbynid ynddi; ond yr ail flwyddyn hi a dalodd yn bur dda; a'r drydedd fe godwyd arni 15 punt, ond nid drwg oedd hi yno.

Ni a fyddem yn gweled llawer yn y nos yn myned trwodd heb dalu; sef y peth a fyddent hwy yn ei alw y Gyheureth neu ledrith; weithiau hersiau a *mourning coaches*, ac weithiau angladdau ar draed, i'w gweled mor amlwg ag y gellir gweled dim, yn enwedig liw nos. Mi welais fy hun, ryw noswaith, hers yn myned trwy'r *gate*, a hithau yng nghauad; gweled y ceffylau a'r harneis, a'r hogyn *postilion* a'r *coachman*, a'r siobau rhawn fydd ar dopiau hers, a'r olwynion yn pasio'r cerrig yn y ffordd fel y byddai olwynion eraill: a'r claddedigaethau yr un modd, mor debyg, yn elor ac yn frethyn du, neu os rhyw un ieuanc a gleddid, byddai fel cynfas wen; ac weithiau yn gweled canwyll gref yn myned heibio. Unwaith pan alwodd rhyw drafaeliwr yn y *gate*,—"Edruch acw," eb ef, "dacw ganwyll

gorff yn dyfod hyd y caeau o'r ffordd fawr gerllaw;" felly ni a ddaliasom sylw arni yn dyfod, megis o'r tu arall i'r lan; weithiau yn agos i'r ffordd, waith arall ennyd yn y caeau; ac ymhen ychydig, bu raid i gorff ddyfod yr un ffordd ag yr oedd y ganwyll, oblegid fod yr hen ffordd yn llawn o eira. A thro arall rhyfedd am hen wr o Gaerfyrddin, a fyddai yn cario pysgod i Aberhonddu, a'r Fenni, a Monmouth, ac yn dyfod a glosterchus teneuon gantho yn ol; yr oedd fy mhobl i yn gwybod ei fod ef ar ei daith, ac yr oedd yr hin yn ddrycinog iawn, o wynt ac eira lluchio; a chanol y nos, fe glywai fy merch i lais yr hen wr yn y *gate*, a'u mam a'u galwodd hwynt i agor ar frys, ac erchi yr hen wr ddyfod i'r ty at y tân. Codi a wnaeth y ferch; erbyn myned allan nid oedd yno neb, a thrannoeth dyma gorff yr hen wr yn dyfod ar drol, gwedi marw yn yr eira ar fynydd Tre'r Castell, a dyna'r gwir am hwnnw. Llauer yn rhagor a ellid adrodd o'r fath bethau, ond nid ydynt ddim gwerth eu hadrodd, am nad oes fawr a'u coeliant.

On ar ol y drydedd flwyddyn yn y *gate*, mi a gymerais *lease* yn Llandeilo Fawr, ac a wnaethum dy i'r merched gadw tafarn; a minnau o hyd yn cario coed. Fe ddarfu i'r *merchant* yn Abermarlais adeiladu llong fechan, a gariai gwmpas 30 neu 40 tunell; fe a'i gwnaeth hi yn y coed, cylch milltir a chwarter oddi wrth afon Tywi, pa un a fyddai yn cario llestri bychain ar lif i Gaerfyrddin; ond hon a wnaed yn rhy drom i'w llusgo at yr afon yn y dull yr oedd y gwr yn bwriadu, sef i bobl ei llusgo, o ran ysbort. Fe roes gri mewn pedair o lannau fod llong yn Abermarlais i gael ei lansio

ryw ddiwrnod penodol, ac y byddai fwyd a diod i bawb a ddelai i roi llaw at yr achos. Felly fe ddarllawodd 4 hobaid o'n mesur ni yn Ninbych, sef deudel yno; ac fe bobodd fwrnaid fawr o fara, ac a brynwyd rhyw lawer o gaws a menyn, a chig i'r bobl orau. Ac yr oedd y llong gwedi rhoi pedair olwyn tani, fel pedair o fothau troliau mawr, a'u cylchu a haiarn, ac echelau mawr yn y bowliau hynny, a chwedi eu hiro erbyn y dydd cysegredig. Minnau oeddwn yn digwydd llwytho yn y coed y diwrnod hwnnw; ac ar ol gyrru y wedd yn ei blaen, mi arosais yno i weled yr helynt. A helynt fawr a fu,—bwyta yr holl fwyd ac yfed yr holl ddiod, a thynnu y llong o gylch pedwar rhwd o'i lle, a'i gollwng i ffos clawdd dwfn. Erbyn hynny yr oedd hi agos yn nos, ac ymaith a'r gynulleidfa, rhai yn o feddwon, a'r lleill ag eisiau bwyd, a llawer o chwerthin oedd ymblith y dorff. A'r *merchant* a dorrodd i gwyno o ran ei ffolineb yn gwneyd y fath beth, ac yn dywedyd wrthyf y byddai raid ei thynnu oddi wrth ei gilydd cyn byth y ceid hi o'r clawdd.

Minnau a ddywedais y medrwn fynd a hi i'r afon ond cael tri neu bedwar o ddynion i'm helpu; yntau a ddywedodd y cawn y peth a synnwn os medrwn fynd a'r llong i'r afon. A deisyf yr oedd arnaf am ddyfod y boreu drannoeth, os y gallwn; minnau a ddaethum, a'r llanc, a phedwar o gefffylau. A mi ddaethum o flaen y wedd, ac a roddais y dynion ar waith i dorri twll mewn hen wal fawr oedd megis o flaen y llong; ac yna rhoi darn o bren ar draws y twll, y tu pellaf, i roi *chain* i fachu y tacl, sef rhaff a blociau, a bachu y pen arall wrth y llong, a rhoi y ceffylau wrth y rhaff i

dynnu. Felly hi ddaeth o'r clawdd yn lled hwylus. Ac yno bachu drachefn wrth bren yn tyfu, a dyfod ymlaen felly. Ond pan ddoed i dir meddal, yr oedd rhaid rhoi planciau tan yr olwynion o ran y pwysau, ac ar ol tynnu i ben blaen y planciau, symud y rhai olaf ymlaen, ac felly o hyd. Ac lle na byddai cyfle i fachu wrth bren yn tyfu, byddai rhaid rhoi post yn y llawr i fachu. Ac o bost i bared hi aeth i'r afon mewn ychydig ddyddiau. Ac addaw i minnau gyflog da, ond ni chefais i yn y diwedd un ddimai byth, ond addaw a'm canmawl. Rhai pobl a fyddai yn dyfod i edrych arnom, ac yn rhoi peth arian i ni geisio cwrw, a dyna y cwbl. A phan ddarfu hynny, cario 'ngorau a wneis i.

Pan aeth coed Abermarlais yn wag, mi aethum i Daliaris, ac i Allt y Cadno, a Chil y Cwm, a Myddfai, Llangenyrch, a Gwal yr Hwch, a Llanedi. Mi a fum yn cario i Forge Llandyfan, ac i Bont ar Ddulas, ac i Abertawe, ac o Aberafan i Gastell Nedd, ac yn cario o le a elwir y Ffrwd i Gaerfyrddin, ac o Wenfra i Gaerfyrddin; ac o amryw leoedd eraill nad wyf ddim yn cofio.

Fe fu farw i mi yn Ninbych gwmpas hanner cant o gefyllau, ac yn swydd Gaerfyrddin saith ar ugain. Ac ar ol yr holl helyntion fe aeth y *merchant* coed yn ol llaw yn y byd, ac fe droes yn bur gnafus ac anonest yn ei gyfrif ac yn ei dâl. Fe aeth oddi arnaf ar unwaith, wrth geisio setlo, £54 6s. Fe fu llawer o'm ffrindiau yn y wlad honno yn ceisio ganddo beidio a gwneyd cam ag un oedd gwedi dyfod o'r un wlad ag yntau, ac wedi cario coed na chariasai neb yn y wlad honno mo'n ynt. Gwedi yr holl gythryfwl nid

oedd gennyf ond wylo weithiau, a chreuloni waith arall, a dywedyd wrtho ef un tro, nad oedd dim help, y byddwn i yn Dwm o'r Nant yn y *North*, pryd na byddai efe ddim yn Feistr Lewis nag yno nag yma; ac felly fu. Mi gefais yr anrhydedd o'i weled ef ar geffyl yn Ninbych gyda'r bailiaid yn myned i garchar Ruthyn, ac a ddywedais â llef uchel, mai dyna yr olwg oreu a ddymunwn weled arno, oni bai i mi gael yr olwg arno yn myned o'r jel i'r Gallegfa, lle byddid yn crogi lladron. Ond ymhen ennyd, fe ga'dd ef fyned yn fancrafft, i safio talu i neb; ac y mae efe yn awr, am wn i, mewn gwlad nad oes orffen talu byth. A rhyfedd mae pob peth yn tynnu i'w elfen; yr wyf yn cofio i mi setlo âg ef yn Llandeilo; ac yr oedd ganddo orders i ddal chweugain oedd arnaf yn fferi Talycafn pan fuaswn yn myned ag organ i Fangor. A minnau a setlais âg ef am hwnnw; mae y cyfrif i'w weled eto yn y llyfyr lle yr oeddym yn cyfrif. Ni thalodd ef ddim; fe fuwyd yn fy ngofyn ymhen y saith mlynedd. Minnau a ddanghosais y llyfyr, fy mod gwedi setlo iddo ef. A llawer o gyffelyb bethau a wnaeth ef â mi ac eraill.

Ond ni waeth tewi—adref y daethum i o Ddeheubarth, heb na cheffyl na wagen; ac nid oedd dim gennyf i droi ato oddieithr gwneyd interliwd; a hynny a wnaethum. Yn gyntaf, mi aethum i Aberhonddu, ac a brintiais interliwd, y "Pedwar Pennaeth; sef Brenin, Ustus, Esgob, a Hwsmon," a dyfod at fy hen bartner i chwareu honno, a gwerthu y llyfrau, a chyd hynny yn cynull *subscribers* at argraffu llyfr caniadau, sef, "Gardd o Gerddi." Fe argraffwyd hwnnw yn



Nhrefecca ; mi a delais am hynny £52, ac a ymadewais a dwyfil o lyfrau. Ac yn ganlynol, mi a wnaethum interliwd "Pleser a Gofid," ac a chwarusom honno, a thrachefn interliwd ynghylch "Tri Chryfion Byd, Tylodi, Cariad, ac Angau." Canlyn hynny yr oeddwn i, a'm teulu yn Llandeilo yn gorffen cadw tafarn, a gorffen hefyd hynny oedd o eiddo.

Mi a ddaethum â'r ferch ganol o'r tair gyda myfi i'r *North* yn gyntaf, ac a'i prentisiais yn Nghaer, yn *filliner*, ac a'i cedwais â chynaliaeth bwyd a dillad, wrth chwareu. Ac o'r diwedd fe ddaeth y wraig adref gyda'r ddwy ferch eraill, ac a baciasant ryw faint o bethau, gwely, a dillad, a llyfrau ; ac fe aeth y pac trwy Lundain ; fe gostiodd am eu cario ynghylch cymaint ag a dalent. Ond fe ddigwyddodd i mi gael arian oedd ar Cynfrig o Nantclwyd am gario coed o Ruddlan, pan oeddwn yn cario coed Rug ; ac hefyd am gario *centre* pont Rhydlanfair o Gaer. Yr oedd hynny, gyda chwareu, yn dipyn o help at gynnal y teulu. Pan ddaethom i Ddinbych, nid oedd un ty, nes y digwyddodd i mi gael rhyw ddau dŷ bychan, a minnau a'u gwnaeth yn un, ac a'u teclais ; a dyna lle yr wyf fi a'm gwraig eto.

Ac yr oedd gan fy nhad dŷ a thipyn o dir, rhwng Nantglyn a Llansanan ; ond pan fu nhad farw, fe aeth cyfreithiwr Dinbych am yr hen felltith, ac a droes fy mam i'r mynydd, ac a feddiannodd y tir ; a chyda chwaer i mi wrth Lanelwy y bu fy mam farw. Ac ar fyrr gwedi hynny, fe ddaeth clefyd ar y cyfreithiwr ; minnau a ysgrifenis ato yn lled erchyll, ac a ddechreuais osod rhai o ddychrynfeydd uffern ger ei fron ; yn

niffyg na byddai i mi gael fy nhir, y byddai fy melltith yn ei gnoi dros dragwyddoldeb; yntau oedd mewn cyflwr truenus yn yr ystafell lle yr oedd ei wely, yn gwaeddi, ac yn drewi gan ryw ffeidd-dra oedd yn dyfod allan o'i gorff; yr oedd yn gorfod i'r dyn ag oedd yn tendio arno daflu finegr hyd y llofft, cyn y gallai fyned yn agos ato. Nid oedd un forwyn na doctor yn myned ar ei gyfyl yn y diwedd; ac felly yr oedd ef yn ysgrechian yn ofnadwy, ac yn gwaeddi ar y mab i'w glyw, ac yn dywedyd,—“Ow! y tir i Dwm o'r Nant”; ac felly fu. Mae y tir gennyf drwy drugaredd, ac a brynais yleni werth cant punt a deunaw ato o'r mynydd. Ond fel y dywed Solomon, “Gwae y gwr a adeilado dŷ âg arian rhai eraill.” Felly fe orfu i minnau fenthyca; ac eto mae arnaf ofid yn fy nghynnal fy hun, i walio a chloddio o'i amgylch; ond yn enw Duw mi wnaf hynny, os ca' i fywyd ac iechyd.

Mi a ddaethum drwy'r byd yn rhyfedd hyd yn hyn. Mi a fum rhwng Sir Drefaldwyn a Deheubarth saith mlynedd. Myned o'm gwlad mewn ofn a phrudd-der, a dyfod yn ol dan chwareu, gwedi ymadel âg ofn a'r achos o hono, o ran y byd, ond bod achos pwysig i ofni a chrynu o herwydd pechod; ac fod achos mwy i ddiolch ei bod hi cystal arnaf, ac fel y gallasai hi fod yn waeth.

Mi gefais fy iechyd yn rhyfedd, trwy bob troion hyd yma; ond yn unig pan aeth y wagen ar fy nhraws wrth bont Rhuddlan, lle cefais brofedigaeth fawr, a gwaredigaeth fwy. Pan godais ar ol i'r olwyn fyned trosaf, mi a eisteddais ar ganllaw y bont, ac yna clywn lais eglur yn dywedyd,

—“Dos, ac na phecha mwyach, rhag digwydd iti beth a fyddo gwaeth”: ac felly yn dal i ddywedyd hyd oni ddaeth pobl ataf Mi ofynais i rheiny a oeddynt hwy yn clywed dim llais? Hwythau a ddywedasant,—“Nag ydym ni.”

A phryd arall cefais waredigaeth neillduol wrth lwytho pren mawr yng nghoed Maes-y-plwm. Yr oedd cario y pryd hynny cyn uniawni y ffyrdd, a'u gwneyd yn durnpik, a'r wageni a ffrâm arnynt, a rowl ar y canol, tebyg i'r peth a elwir *boulster*; minnau oeddwn yr ochr nesaf i nant ddoft, yn troi yn y rowl gyda throsol haiarn cryf ar olwg; fe dorrodd yn nhwll y rowl, onid oedd y dynion ag oedd yn edrych yn y ngweled yn troi fel *mountebank*, ac yn disgyn yn nghanol tomen o gordwd oedd gwedi eu taflu ar eu gilydd y'ngwaelod y nant. Mi a gefais beth dychryn, ond ni friwais i ddim, gymaint a thorri crimog.

Felly trwy ryw ragluniaethau, mi a gefais fy achub hyd yn hyn. Hi a fu yn lled gyfing arnaf lawer gwaith; ond yr oedd imi beth ffafir mewn gweithio, pan fliniais yn chwareu.

Mi a fum, y blynyddoedd cyntaf ar ol dyfod o'r Deheudir, yn saer maen, yn cymeryd gweithiau, ac yn cadw gweithwyr; ac un hanner blwyddyn, mi aethum at y *bricklayers* i Lan y Wern i ddysgu peth o'r gelfyddyd honno; ac felly mi a ddysgais weithio yn lew ar briddfeini. Ac yn awr, er ys pump o flynyddoedd, fy ngwaith yw gosod ffyrnau o haiarn, neu bobtyau, medd rhai; ac hefyd gosod ffwrneisiau, at bob achos, a gratiau, a *stoves*, a *boilers*; ac aml iawn y byddaf yn *smoak doctor*. Yr wyf yn ennill cyflog lled dda; ond yr ydwyf yn fwy methianllyd am weithio,

rhwng henaint ac argraff ambell godwm a gefais yn fy ngorff, i'm cofiau yn fynych.

Ymhen blwyddyn ar ol i mi ddyfod o'r Deheudir, mi a darewais wrth hen gariwr coed a fuasai gyda myfi lawer gwaith yn cydgario; ac yn yr *Hand* yn Rhuthin yr oeddym, gydag amryw eraill. Ond ar ryw ymddiddan, ebe fy nghyfaill wrthyf,—“Twm, yr wyt yn llawer gwannach nag oeddit pan oeddem yn cydgario coed.” Minnau a atebais, fy mod yn meddwl nad oeddwn ddim gwannach; ac yn y cyfamser fe ddigwyddodd fod sacheidiau o wenith yn y neuadd honno, i fyned i Gaer gyda gwagen y cariwr; ac yr oeddwn â thri mesur ymbob sach. Mi a ddywedais os cawn dair sach ar y bwrdd, a'u clymu ynghyd, y cariwn hwynt yn ol ag ymlaen i'r ystryd; ac felly gwnaethum; ac fe ffaeliodd pob un arall oedd yno. A rhyw dro arall, pan oeddwn yng Nghaer, mi a godais faril o *borler* i ben ol y wagen o'r ystryd, o nerth cefn a breichiau. Mi a fum, dro arall, yn cario wyth droedfedd o bren derwen ar fy ngehfn. A llawer o ryw wag wyrthiau felly a wnaethum, nad wyf ddim gwell heddyw.

Mae achos mawr i mi ystyried fy ffyrdd, ac ymofyn am Waredwr, gan nad 'llaf mo'm gwarded fy hun, heb gael adnabyddiaeth o deilyngdod y Cyfryngwr, yn yr llyn gobeithio, y bydd i mi derfynu fy amser byr ar y ddaiar, yn heddwch Duw i dragwyddoldeb. Amen.

Hyn a ysgrifennais yn fy seithfed flwyddyn a thriugain oedran, Awst 1af, 1805.

THOMAS EDWARDS.

## TRI CHRYFION BYD.

CARIAD, TYLODI, AC ANGAU.

*Ymddengys Syr Tom Tell Truth.**Syr Tom Tell Truth :*

**T**RWY'ch cennad heb gynnen, â llawen ddull  
hoew,

Dymuna yma *silence*, ac i bawb ddal sylw ;  
Chwi gewch ddifyrrwch yn ddi feth,  
Os torrwech beth o'ch twrw.

Mae'n gofyn i bawb sy am wrando,  
Roi pob ymddiddan heibio ;  
Ni ddichon neb ddeall unrhyw ddawn,  
Neu stori heb iawn ystyrio.

Cymysgedd ieithoedd Babel  
Sydd yma fynycha'n uchel ;  
Ni cheir, lle bo cynifer dyn,  
Ond ychydig yr un chwedel.

Mae dyn wrth naturieth wedi torri'n druenus,  
A'i feddylie'n anwadal, yn falch ac yn wawdus,  
Yn ymlid, fel canghenne pren ar wynt,  
Ryw helynt afreolus.

Fe ddwedodd y sarff o'r dechre  
Y bydde dynion megys duwie,  
A'r balchder hwnnw sy'n ffals ei wên  
Yn glynu mewn hen galonne.

Can's fel hyn eto mae dyn wrth natur,  
Yn dal yn arw am wneyd diawl yn eirwir,  
Am fod yn ddoeth yn ei olwg ei hun  
Mae braidd bob dyn a adwaenir.

Anfynych y clywir neb yn datgan  
 Histori neu hanes, heb ei ganmol ei hunan ;  
 Does dim yn derchafu ac yn clymu yn clêr  
 Mor sutiol a balchder Satan.

Mae balchder Cymry ffolion  
 I ymestyn ar ol y Saeson,  
 Gan ferwi am fynd o fawr i fach  
 I ddiogi'n grach fon'ddigion.

Os cant hwy ryw esgus i fod yn 'r ysgol  
 Ni wiw am air o Gymraeg ymorol ;  
*They cannot talk Welsh, nor understand,*  
 Oni fyddir yn *grand* ryfeddol.

Y mae'n gywilyddus clywed carpie  
 Yn lladd ac yn mwman ar iaith eu mame,  
 Heb fedru na Chymraeg, na Saesneg chwaith—  
 Onid ydyw'n waith annethe ?

Ac os bydd rhyw hogenig wedi bod yn gweini,  
 Yn Nghaer neu'r Amwythig, dyna'r cwbl yn  
 methu ;  
 'Cheir gair o Gymraeg, ac os dwed hi beth,  
 O'r ledieth fydd ar mei ledi.

Chwedl mawr yw bod fis yn Lloeger,  
 Fe ddysg merch ifanc lawer o fedrusder ;  
 Siarad *modest* a phletio'i min,  
 'R'un fath a thwll y tanner.

Yn Nghymru mae llawer coegen  
 A roi goron i *blayers* Llunden,  
 Ac ni all i Gymro fforddio o'i phwrs,  
 Un geiniog heb gwrs o gynnen.

Ac y mae llawer crach gynffongi  
 Na hidie fo gownen er taflu gini

Am le i hwrio neu gamblo ar gais

Yn nghwmni rhyw Sais lled sosi.

A rhyfedd fel y dywed cwmni o Gymry,

"O, the English song is very pretty!"

Ac yn agor eu cege a'u clemie clws,

Ar gorws yn gwehyru.

Dyma fel y byddant yn canu ac yn bloeddio,

Heb air o gysondeb, yn berwi ac yn sowndio ;

A phe baed am ganu Cymraeg yn son,

Ni ddealle'r gwyr mwynion mono.

Mae hyn yn helynt affan

Fynd o'r hen Gymraeg mor egwan ;

Ni cheiff hi mo'i pherchi mewn bryn na phant

Heno gan ei phlant ei hunan.

*Ymddengys Traethydd.*

*Traethydd.* What is this gibberish, foolish fellow?

*Tom.* Dam i sil Satan, dyma Sais eto.

*Traeth.* Do not talk nonsense.

*Tom.* Taw, dacw Nansi,

Siarad Gymraeg neu ddos i'th grogi,

'Does yma fawr o Saesneg glân

Ond ychydig gan Sian a Chadi.

*Traeth.* Paham 'rwyf yn lladd ar Saesneg mor greulon?

*Tom.* Lladd yr wyf fi ar Gymry beilchion

Sy'n ceisio gwneuthur pob dyfeis,

I fod mor breseis a'r Saeson.

Oni ellir dysgu Saesneg ar gore

Ac heb fynd yn feilchion goegion gege—

I wadu na fedront ddim yn faith,  
Mewn moment, o iaith eu mame?

*Traeth.* Mae 'marferiad, oni chlywsoch, yn llawer  
achlysur.

*Tom.* Wel ydyw, mi wn eto, lle bo duedd mewn  
natur,

Ond am fod yn dduw, yn ol gair yr hen walch,  
A chodi, mae balch bechadur.

*Traeth.* 'Does fai ar neb am godi'n raddol,  
Fel bo'u sefyllfa'n gyfatebol.

*Tom.* Ym mhob sefyllfa fe dylai dyn  
Adnabod ei hun yn wahanol.

*Traeth.* Doethineb trwy degwch y'mhob galwed-  
igeth

Sy'n tynnu'n gysonedd rai tan ei gwasaneth ;  
Lleferydd a gwyneb sy'n dangos gwahanieth ;  
Mae dynion yn dirwyn at ddull eu gwladwrieth.

*Tom.* Wel, felly, nid celwydd caled  
Yw barn dostaf y Methodistied ;  
Mae gwladwyr y cythrel yn hawdd eu cael,  
Wrth eu bywyd gwael, i'w gweled.


Mae'r meddwon a'r lladron tan un llywodreth,  
Y tyngwr, a'r rhegwyr, a phob rhywogeth,  
Dilynwyr pechod yn gytun,  
Yn deulu o'r un gwaedolieth.

*Traeth.* Mae pob rhyw fasweddwyr mewn pechod  
yn suddo.

*Tom.* Weljbeth ydyw maswedd? rhag ofn mod  
i'n misio.

Os oes gennyt reswm, dod yn ei le,  
Er undyn, mi wnafl finne wrando.







RHAI O'R GWRANDAWYR.  
(*Darlun gan A. E. Elias*).  
"Mac'n gofyn i baw sy am wrando  
Roi pob ymddiddan heibio."

*Traeth.* Mae enw'r gair maswedd fel hyn i'w  
gymhwyso,  
Am bob pethe allanol eill natur eu llunio ;  
Gwagedd o wagedd, a maswedd mewn mesur,  
Heb waith y dyn newydd, yw popeth dan awyr.

Maswedd cnawd esmwyth sy'n adwyth niweidiol,  
Yn suo rhai'n Sion ar foddion crefyddol,  
Canu a gweddio, a gweithio pregethe ;  
Fe gyfrif Duw'n faswedd holl ffrwyth eu gwefuse.

*Tom.* Os oes maswedd mewn pregethe,  
Ni waeth nyni na hwythe ;  
Os gallwn gario cydwybod clir,  
I draethu'r gwir, bob geirie.

O ran mae'r gair gwir, drwy gariad,  
Yn hæddu beunydd bob derbyniad,  
Mewn amser ac allan o amser llawn,  
Mae'n ddidwyll ac iawn ei ddweddiad.

*Traeth.* Ychydig o gariad sydd mewn geirie  
A draetho'r ynfydion ar flaene tafode ;  
Murie sychion yw'r rhai hynny  
Heb ffydd, fel mortar, i'w cyd-dymheru.

Mae'r rhain yn debyg o ran eu diben,  
I fynediad y wenfol a'r gornchwiglen,  
Yn troi o gwmpas, er hynny eu cartre  
Sydd un yn y gors a'r llall yn y simne.

Mae lithe'r 'sgyfarnog enwog union,  
Yn cnoi ei chil o egni ei chalon,  
Yr un droed â chi yw hi, er hynny,—  
Felly mae buchedd rhai redant i bechu.

Mae eraill o ryw'n fforchogi'r ewin,  
Hyd ffydd y duwiolion y byddant hwy'n dilyn,  
D

Heb ddim cnoi cnil yn eu gene na'u calon,  
I ddal neu fyfyrion ar dduwiol arferion.

*Tom.* Wel son am greaduried 'rwyf ti rwan,  
A gwahanol gyflwr, glan ac aflan,  
Oni ddaeth llenlliain o'r nef i'r llawr,  
Mewn gafel ddirfawr gyfan?

Ac 'roedd pob creaduried yn hon yma,  
A glân oedd y cyfan, cofia;  
Ac yr oedd cyhoeddus weddus wadd,  
Heb atal, i ladd a bwyta.

*Traeth.* Y llenlliain hon yw'r efengyl a'i rhyddid,  
Ond rhaid yw lladd cyn bwyta er bywyd;  
'Does cig na physgod na llafur yn fuddiol,  
Heb eu lladd a'u torri o'u cyflwr naturiol.

A dyma'r porth cyfyng mae gafel y bywyd,  
Sef marweiddio gweithredoedd y cnawd trwy'r  
ysbryd,  
A dysgu croes Crist, egwyddor crefydd,  
Yn ysgol rad y creadur newydd.

*Tom.* Gan dy fod mor ddoeth gad i mi glywed  
Pa foda 'roedd plant Israel yn ysbeilio'r Aifftied,  
Yn benthyca tlyse ac yn dwyn ar duth,  
Heb dalu byth mo'u dyled.

*Traeth.* Yr aur a'r tlyse a'r gwisgoedd gwychion,  
Sydd deip o dalente a donie dynion,  
Rhai ddylid fenthyca oddiar naturieth,  
I ogoneddu'r Hwn sydd berffeth.

*Tom.* Wel, os tâl benthyca felly,  
Gallwn ninne ddawnsio a chanu;  
Pe medrem ni ganmol Hwn sy'n llawn  
Yn rhoi rhinwedd a dawn i hynny.

Tri Chryfion Byd. 35

*Traeth.* Pob dysg a dawn, pob llawn gallineb,  
Mae gogoniant y Creawdwr trwyddo'n ateb,  
Ond natur dyn trwy falchder Satan,  
Sydd am ogoniant iddo'i hunan.

*Tom.* Wel, ni waeth inni dewi'n ebrwydd,  
Na phe baem ni'n ymddiddan ddeuddydd,  
Profi pob peth, a dal yr hyn sy dda,  
Ydyw'r ffordd benna' beunydd.

[*Disflanna Syr Tom Tell Truth.*

MYNEGEIR Y CHWAREU.

*Traeth.* Wel, bellach crybwyllaf, mi dystiaf am  
destyn,

O'r duil yn deg hylwydd mae'r trefniad yn canlyn,  
Am Dri Chryfion Byd, ddwys olud, mewn sylw,—  
Sef Tlodi, a Chariad, ac Ange tra chwerw.

A Chariad yw'r hynaf, o chredir yr hanes,  
O ran, pan gadd gwrryw gu fenyw yn ei fynwes,  
Ac wedi iddi ei gwympto a'i rwydo ef o'i rydid,  
'Roedd Cariad yn ddiau'n cywiro'r addewid.

Ond mellith y pechod drwy hynod drueni,  
A'r noethni dyledus, wnaeth nyth i Dylodi,  
Na chaffai ddyn fara, heb chwysu'n llafurus,  
Ac Ange yn y diwedd, ac ing, yn ei dywys.

Ond cryf iawn yw cledi Tylodi a dyledion,  
Yn boenus iawn beunydd, oer ddeunydd ar  
ddynion,

Yn gwneyd i rai feddwl am waith a chelfyddyd,  
Fel mae gan bawb awydd i gynnal eu bywyd.

Ac eirias o gariad, wir fwriad arferol,  
Yw elfen cenhedleth naturieth daearol,

A chariad cyflawndeg y deg waredigeth  
 Sy'n gryfach nag ange'n rheole marwoleth.

Ac yna'n ganlynol, allanol ddull hynod,  
 Cewch beth o gwrs bywyd y byd a'i gybydd-dod,  
 Drwy wraig afrywiogedd, flaen daeredd, flin-  
 derus,

A chanddi ddau feibion, yn ddigon eiddigus.

Ac un mab oedd gartref, fel hithe yn ei heithaf,  
 Yn gybydd rhy arw, a hwnnw oedd yr hynaf,  
 A'r ail a gai'r ysgol, drwy rvyysg a chymeriad,  
 A'r peth a wneiff arian, fe'i rhoed yn offeiriad.

'Nol hyn, wedi'r cwbl, y fam a'i mab cybydd  
 A gwymppodd yn galed allan a'u gilydd,  
 Ac at yr offeiriad hi a i fyw yn gorfforol,  
 Bu yno nes marw mewn enw mwy unol.

Hi drefnodd ei h'wyllys drwy hollol gydsyniad,  
 Yn anwyl ei pherwyl, i'r mab oedd offeiriad,  
 A'r ddau am yr eiddo mewn cyfreth ymroddodd,  
 A'r cybydd gofidus, wr gwallus, a gollodd.

Fe syrthiodd wrth erlid i lid a thylodi,  
 Ac ar ei ddiweddiad fe gadd ei argyhoeddi ;  
 Mae'n troi'n edifeiriol o'i farwol arferion,  
 'Rhyn fydde'n ddaionus i bob gradd o ddyinion.

Ac felly, 'r cwmpeini, mae pennaf gychwyniad  
 Yr *act* wael sydd gennym, os rhowch chwi fwyn  
 gennad,  
 Gosodwn hi o'ch blaene ein gore drwy gariad,  
 Na ddigiwch, cyd-ddygwch, lle ffaelio'n hym-  
 ddygiad.

[*Disflanna Traethydd.*

Tri Chryfion Byd. 37

*Ymddengys Syr Tom.*

*Tom.* Wel, gwir ddwedodd Satan, mae'n hysbys  
eto,

Bydd dynion fel duwie er cael eu handwyo ;  
Mae ffrwyth pren gwybodaeth da a drwg  
Yn gwneyd cynnw'r amlwg heno.

Mae swn am gyfoeth a mawrhydi,  
A swn diawledig ydyw son am dlodi,  
Heb fawr yn synied ar ferw saeth  
Y barieth sy'n ei beri.

Heblaw'r hen felltith wreiddiol  
Sy'n peri tlodi'n wladol,  
Balchder gwyr mawr yn gwasgu'r gwan,  
Mae hyn yn rhan erwinol.

Balchder sy'n gyrru bon'ddigion segurlyd  
Tua Ffrainc neu Loegr i rythu eu llygid,  
I ddysgu ffasiwne a gwario'n fall  
Ddau mwy mewn gwall nag ellid.

Mae ganddynt yn Llunden lawer llawendy,  
I droi'r gath yn'r haul i fonddigion Cymru ;  
*Playhouses a lotteries*, ffawdus ffull,  
Ac amryw ddull i ddallu.

Ac yn y *play* y cant hwy eu pluo,  
Rhwing hrs a lickers y bydd eu haur yn slacio,  
Rhaid canlyn holl egni cwmpeini pur,  
'Ran grandrwydd gwyr yn gwario.

A dyna'r nod, fy 'neidie,  
Mae gwyr mawr stowt yn gwario statie,  
Wrth ddilyn balchder, a'u harfer fel hyn,  
Peth costus ydyw canlyn castie.

Ond balchder cyn y collo  
 Ei fywolieth wrth drafaelio,  
 Nac y cym'ro fe ronyn llai na'i raid,  
 Fe geiff y gweiniaid gwyno.

Helsgamers o Lunden, a llawer o helyntoedd,  
 A *land surveyors* i *reiviwio*'r tiroedd ;  
 A'u mesur hwy drostynt, gwlyb a sych,  
 Y caue'n grych a'r gwrychoedd.

A mynd a map i'r gwr bonheddig,  
 O bob cyrrau, y coed a'r cerrig,  
 Pob cae a ffrith, pob acr a phren,  
 A chodi cyn pen ychydig.

Cyhoeddi, a galw'r tenantied i'r gole,  
 A dwedyd mewn ecrwch fod hyn a hyn o acre,  
 Ac y myn y meistr tir gael codi ar y rhent,  
 Mae hyn yn gonsent i ddechre.

A hwythe, tenantied y brynie a'r nentydd,  
 Yn mynd yn anhyweth at y ffasiwn newydd,  
 Wrth glywed eu Saesneg hwy'n hynny o fan,  
 Yn mron gan anhapusrwydd.

Ac yntau'r stiward, nid oedd dim *stayo*,  
 Ond "*Come forth, what ails ye, Cymro?*"  
*Your land will be let for better pris,*  
*Don't be a foolish fellow."*

Ac ynte'r hen denant bron a diwyno,  
 Heb wybod be i'w ddwedyd, ond diodde'i  
 A begio ar un o wyr ei wlad, [wawdio,  
 Mewn tristwch, siarad trosto.

Ac fealle hwnnw, 'run fath a Haman,  
 Yn cymryd y tyddyn iddo'i hunan ;  
 A'r dynan truan, gan ffalsder trwch,  
 Yn ei dwllwch raid fynd allan.



Tri Chryfion Byd. 39

Ac felly, dyna hwnnw'n gorfod myned,  
Wedi colli 'i fywolieth iddo'i hun a'i nifeilied,  
Ac fealle'r plant yn mynd ar y plwy,  
Yn bwyse mwy ar denantied.

Dyna'r meistr a'i denant heb gael dim daioni,  
Ond codi stiwardied yn falch ac ystwrdd,  
Does ryfedd beunydd yn y byd  
Fod cymaint o lid a thlodi.

*Ymddengys Gwiddanes Dlodi.*

*Gwiddanes.* Pwy sydd yma yn cadw'i lol,  
Fel gylfinir, a'i glol i fyny?

*Tom.* Pwy ydech chwithe, ai merch y gwr  
drwg,  
A gadd yn y mwg ei magu?

*Gwidd.* Myfi yw'r widdan sy'n gwneyd i ra  
waeddi,  
Rwy'n gryfa drwy wledydd, fe'm gelwir  
Tlodi.

*Tom.* Braidd na waeddwn i fy hun  
Wrth edrych y fath un a thydi.

*Gwidd.* Myfi yw'r hynaf ymhob trueni,  
Fe'm ganwyd yn nyth y newyn a'r noethni,  
Pan ddarfu i Adda lyncu ei damed,  
Myfi oedd y gyntaf a welodd e' â'i lyged.

Ac fe'i rhoed ef dan berygl na chai ddim bara,  
Ond trwy chwys ei wyneb o'm hachos i yna ;  
A byth yn fy magl 'rwy'n dal rhai â'm dwylo  
Mewn gofid ac angen, oni fyddant hwy'n gwingo.

Ymfrostied gwyr mawrion yn eu parch a'u cy-  
meriad,

'Roeddynt hwythe'n dylodion a gweinion pan 'u  
 ganed ;  
 Oni pheidiant ag ymwychu, a gyrru, a gwario,  
 Fel na allont hwy ateb, ânt felly eto.

*Tom.* Oni ddarfu rhai brynnu tiroedd dan godi  
 eu torre,

Erbyn agor llyged, ni thelynt mo'r lloge ?  
 Achos enw mawr a bychan fudd,  
 Mae'r aerod bob dydd yn diodde.

Hwy aethant 'run fywolieth a Guto Felyn,  
 Ychydig laeth a hynny'n enwyn ;  
 Oni cheir gwaith corddi, fel y dwedodd fy nain,  
 Hi a fydd yn o fain am fenyn.

*Gwidd.* Ond balchder yn ymgyrredd gormod,  
 A mellith drygioni pechod  
 A wneiff, yn ddwys, yn mhen oes neu ddwy,  
 Feddianne mwy'n furddynod.

*Tom.* Mae aml blas mawr yng Nghymru heno,  
 Mae'n chwith i lawer un fynd heibio,  
 Lle bydde fon'ddigion hardd eu drych,  
 A gwein'dogion gwych yn trigo.

*Gwidd.* Hwy lanwent folie gormeswyr ffeilsion,  
 Yn lle rhoi elusen i bobl dlodion ;  
 'Does ryfedd fod mellith ar dir a thai  
 I ddigwydd i rai bon'ddigion.

*Tom.* Wel, mae nhw i'w canmol draw ac yma,  
 Am roi cynhalieth i'w cwn hela ;  
 Maent yn llawnach o flawd, mi glywes son,  
 Yn eu bolie na thylodion y Bala.

*Gwidd.* Ond anllywodreth, mewn dull anfeidrol,  
 Sy'n rhoi i mi le i feistroli pobol,

Balchder ac oferedd sy'n cyfeirio,  
Yn tynnu 'neilied i tan fy nwylo.

Rhyfedd heno i'w gofio ar gyfer  
Mor ddau wynebog ydyw balchder,  
Gyrru rhai i weithio, gyrru rhai'n lladron,  
Pob castie diawledig rhag mynd yn dlodion.

Fy ofn i sy'n peri i rai godi'r bore,  
Rhai i'w gorchwylion, rhai i'w siwrneie,  
A'r plant bach fydd yn llefain rhag llafur fy  
ngafel,

A'r hen bobl yn rhedeg, bron colli'r hoedel.

Myfi ydyw'r hynotaf mewn ffair a marchnad,  
Fe edrych pawb arna i â chornel eu llygad ;  
Rhag fy ofn i y bydd y rhai cryfaf  
Yn cael bargeinion ar ddwylo'r rhai gwannaf.

O! meistres erwinol wyf fi ar weinied ;  
Mi dorres hyd y Nentydd yma lawer o denant-  
ied,

Rhai fydde'n meistroli mewn balchder ac  
oferedd,

Ond myfi fydd eu meistres hwy yn y diwedd.

Mi weles yma ffarmwyr yn byw'n drefnus  
Yn dilyn ceiliogod a chyffyle rasmus ;  
Ond pan ddown i atynt yn fy awdurdod,  
Fe fydde melus gael canlyn mulod.

Ac mi weles rai yn rhwysg eu cyweth,  
Yn wyr synwyrolaf trwy'r gymdogeth ;  
Ond pan ddown i unweth yn feistres arnyn'  
Ni fedde nhw synwyr un briwsionyn.

Ac mi weles wyr gorchestol arw,  
Yn perchen tiroedd yn fawr iawn eu twrw,

Yn mynd, rhai ar y plwyf, a'r lleill i'r ffatri,  
A'r lleill i'r jel i isel oesi.

A'r merched mwyn gymen â'r llygad main  
gwamal,

Sydd heddyw mor sosi yn caru ac yn sisial,  
Pan ddeloch i'r bwth bach, yn gwla'ch gwely,  
Chwi fyddwch yn llafar, na thalwch mo'ch llyfu.

Yrwan mewn sadrwydd mae i chwi gonsidro,  
Os myfi fydd y feistres, mi wnaf i chwi fwstro,  
Heb ddim bycle *plated*, na gown brith plotiog,  
Na ffedoge gwynion, mi ddaliaf fi geiniog.

Y glog sidan ddu, a'r *wire* capie,  
A'r *balloon bonnets*, a'r hetie rubane,  
A'r *handkerchiefs* mawr, a'r *ruffles* dwbwl,  
O, myfi yn y funud a'ch gwisgaf chi'n fanwl.

Ac yn lle tē i'ch brecwast mi fyddaf fi'n eich  
procio,

I gymryd potes gwyn bach, neu laeth wedi'i  
dwyimo,

Brywes dwr a halen neu gawl erfin,  
Bydd weithie'n anodd cael pen wnionyn.

*Tom.* Wel, wfft i'ch calon, gyda'ch ceuled,  
Onid ych yn ddigywilydd yn rhoi ffâr mor  
galed?

*Gwidd.* Os daw ataf fi na mawr na mân,  
Yn waeledd hwy gan' weled.

*Tom.* Mae'n dost i chwi'u bwlio hwy'n weigion  
eu bolie.

*Gwidd.* Fealle y ca'n hwy fara os codan yn fore ;  
Ond ni wiw i un o honynt edrych yn ddig,  
Ni cha'n hwy fawr gig i'w cege.

Hwy gan' frwchan i'w cinio, a llith, a chawl  
cenin,  
Uwd a llymru, a bytatws a llaeth enwyn,  
A chaws gan gleted a lledr clytio,  
Wiw son am ymenyn na disgwyl mono.

*Tom.* Ateliwch eich tafod,—does ond Sir Aber-  
teifi,  
A pheth o Sir Gaer, fel yna'n rhagori.

*Gwidd.* Mae bywolieth galed lawer tro,  
Trwy wledydd lle bo tlodi.

*Tom.* Wel gan i chwi fygwth cymaint aflwydd  
Mae rhyw alwedigeth i bawb yn digwydd ;  
Rhaid i bawb geisio offer i ymladd am fwyd,  
A'r crydd gael mynawyd newydd.

*Gwidd.* Wele un o chwedle gwir y Saeson,—  
“ *Necessity is the mother of invention ;* ”  
Ni wnae neb fawr, mi wrantaf fi,  
Ond rhag tylodi a dyledion.

Myfi ydyw'r Fadarn, 'rwyf fel gwialen fedw,  
Mi chwipiaf ac a giciaf rai yma ac acw,  
Mi wna i bawb gychwyn tra fo hoedl ac iechyd,  
Neu os trinian hwy ddiogi, hwy dron i ddygyd.

*Tom.* Chwi yrasoch rai i'w crogi,  
Rhwing balchder a gofidi ;  
Ac rhagoch chwi mewn cynni caeth  
Rhyfeddod aeth i foddi.

A llawer lodes ledrydd  
Aeth i hwrio o'ch herwydd,  
Rhai i ladrata, gwaetha gwyn,  
A'r lleill yn ca'lyn celwydd.

*Gwidd.* Onid yw merched mor aflawen,  
Yn eu hynod handwyo'u hunen,  
Trwy ddilyn gormod chwant y cnawd,  
Yn wynebu'n dylawd anniben?

*Tom.* Wel dyna ddarluniad unig  
O'r ffrwythe gwaharddedig,  
A'r gorchymyn sydd yn gofyn bod  
Ufudd-dod nod enwedig.

O ran y peth sydd wan a meddal,  
Mae'n fwy gogoniant iddo gael ei gynnal;  
Nid rhaid i'r iach wrth feddyg drud,  
Tra tyfo mewn bywyd diosal.

Nid rhaid diolch i'r lladron lledrydd,  
Os ffaelian hwy gael gan gloie neu welydd,  
Mwy nag rhaid diolch mewn llawer lle,  
I feini meline am lonydd.

Ond hawdd cadw cestyll neu'r cistie fo heb daro,  
'Does orchest oruchel ond i'r hwn a ymdrecho,  
Ac a ymladdo yn erbyn dyn a diawl  
Yn ollawl ac a enillo.

*Gwidd.* Nid pobl ymdrechgar hygar eu hagwedd,  
Ond rhai pur galon weinied, sydd gen i yn fy  
ngwinedd,

Rai llyrfion ymddygiad, a llawer o ddiogi,  
Sy fynycha'n cael eu rhwydo a'u dyludo i dylodi.

Mae mhobl i, druen, bob rhyw droie,  
Yn hawdd eu hadnabod wrth wedd eu hwynebe,  
Sef y dua ei grys, a'r gwynna ei esgid,  
A'r siwrwd ei gefen fydd yn siarad mewn gofid.

Mr. Bwcl o Bob Pâr, a Mr. Cysgu'n Hir y Bore,  
A Mr. Clox Tine Agored, a Mr. Clos Tan ei  
Arre,

A Mr. Di Fforcest, a Mr. Gwag ei Ffircen,  
 A Mr. Lled Lonydd, a Mr. Llwyd Wlanen.  
 A gwragedd lled hollawl, sef Madam Gown  
     Tyllog,  
 A Madam Bess Geglom, a Sian Bais Gaglog,  
 A Madam Oer Lewyrch. a Madam Warr Leuog,  
 A Madam Geunor Ddrewlyd, a Madam Gwen  
     Ddrylliog.

*Tom.* Gwarded ni rhagoch gyda'ch rhigwm,  
 Onid ydych chi rywsut, yn feistres ddi-  
     reswm?  
 Gwae yn y byd fo danoch chi'n byw,  
 'Ran caled ydyw'ch cwlwm.

*Gwidd.* 'Does un frenhines, hanes hynod,  
 Na brenin mewn dewrder, gymaint ei awdurdod,  
 'Rwy'n fwy dychrynadwy, 'n gwneyd i rai  
     och'neidio,  
 Nag un rhyfelwr a fu erioed yn trafaelio.  
 'Rwy'n gryfach na'r cornwyd, a'r llif mawr yn  
     Carno,  
 'Rwy'n gryfach na'r cestyll, fu amryw yn  
     costio,  
 'Rwy'n gryfach na'r tân, na'r crogbren, neu'r  
     tennyn,  
 Ran fe eir drwy bob niwed rhag tylodi a newyn.  
 Y cyfreithwyr a frathant, a gafaelant yn filen,  
 Ond ni fwy gen i am danynt nag am goes  
     rhedynen;  
 Er cyhyd eu gwinedd, a chymaint eu gwenieth,  
 Ni wnant ar dylodi ond ychydig 'deiladeth.  
*Tom.* Mae gwyr cedyrn, âg aur i'w code,  
     Yn feistradoedd arnoch chwithe.

*Gwidd.* Yn feistradoedd arna i 'does fawr i gyd,  
Pe gwelid y byd mewn gole.

Mae llawer o feistradoedd, pe rhoid llaw tan eu  
'strodur,  
A'm ffwndwr i'w dilyn, pan ffeindir eu dolur ;  
Ond harddwch eu dillad yw eu heddwch nhwy i  
dwylo,  
Fel nifeilied i'r cigydd, wrth feirw maent yn  
cogio.

*Tom.* Mae rhai drwy gamedd, draw ac yma,  
Yn mynd yn dylodion er eu gwaetha ;  
Anlwc yn y byd, neu gam gan wyr mawr,  
Yn eu gwthio nhw i lawr i'w heitha.

Ac mae llawer o stiwardied mor bell eu stordyn,  
Yn fil gwaeth na meistr yn ymledu ac ymystyn,  
Y nhw ydyw'r duwie raid addoli dan ser,  
Os mynner byw'n dyner danyn'.

Mae llawer o boblach weinied  
Yn ofni cael eu sturdio gan ystiwardied,  
Yn fwy nag yr ofnant mewn odid radd  
Hwnnw eill ladd eu hened.

*Gwidd.* Mae achos i ofni gwyr mawr a'u  
stiwardied,  
Ran prin ceiff rhai amser i feddwl am ened,  
Rhwing cyfreth stiwardied a balchder gwyr  
mawrion  
Mae tenant i'w ganffod fel rhwing diawl a'i  
gynffon.

*Tom.* Nid oes odid wr o gyfreth heno,  
Na bo fe'n ystiwart, i ddal a chystwyo,  
Ac ambell gnaf arall a wneiff y tro,  
Neu siopwr a fedro siarpio.



Mae stiwardied y miners yn onest mewn manne,  
 Yn pesgi'n flonegog wrth atal cyflogë,  
 Nid y rhai yslofio twaya'n un fryd  
 Sy'n cyrredd y byd gore.

*Gwidd.* Gad lonydd i'r stiwardied a'r cyfreithwyr  
 hefyd,  
 Y nhw sy'n rhoi 'neilied yn fy nwylo'i bob  
 ennyd ;  
 Onibai rai'n pinsio, ac yn robio'n rheibus,  
 Ni fydde'r wlad fyth mor anghenus.

*Tom.* Mai balchder serth, echrysnerth, a chroesni,  
 Sy'n tynnu dial, ni waeth inni dewi,  
 Ni bydde'r cyfreithwyr ddim ym mhob ffræ,  
 A'u gwinedd, onibai drygioni.

Mae'r diawl, fel melinydd, yn troi gelynieth  
 Olwyn gocos chwant yn nhroell naturieth,  
 Ni cheir fyth heddwch nac esmwythad  
 Heb ryw gyfnewidiad odieth.

*Gwidd.* 'Rwyf fi'n cyfnewid ac yn ystwytho,  
 Gyrru'r balch heb ei waethaf, a'r diog i weithio,  
 Gyrru'r afradlonied i feddwl am gartre,  
 A gwneyd i lawer aslerwr deimlo'u cyflyre.

*Tom.* Tro ben ar dy chwedle, a thaw a chodlo,  
 Onide hi a'n gofrestr hwy na ffair Fristo',  
 Nid ydyw rhuo yr un peth, fel hyn,  
 Bleser i undyn wrando.

*Gwidd.* Dyma fel y mae, ni waeth imi dewi,  
 Mae llawer yn flin o gwmni tylodi,  
 Ond rhaid i rai, heb waetha yn eu gën,  
 Yn aml roi pawen imi.

[*Dislanna Gwiddanes Tylodi.*

*Tom.* Gwir ddywed Gaenor o Dafarn y Gunog,  
 Hir ac anghynnes yw chwedl yr anghenog ;  
 Ond i ddangos mawrhydi tylodi yn lân,  
 Mae gen inne gân, yn enwog.

*Alaw*—"Y DDIME GOCH."

POB dyn a dynes gynnes gall,  
 Mae'n ddiwall mewn addewid  
 Fod raid i bawb sy'n chwennych byw,  
 Feddwl am ryw gelfyddyd ;  
 Rhai i'r môr, a rhai i'r mynydd,  
 Rhai i'r glynnoedd, rhai i'r glennydd,  
 Rhag tylodi i ymboeni beunydd ;  
 Rhai yn hwsmyr drwy bob d'rystni,  
 Rhai 'mhob swyde rhag ofn soddi,  
 Helynt lidiog rhag tylodi.

Y Gôf a'r Saer ar gyfer sydd,  
 A thylwyth Crydd a Theiliwr,  
 Y Tanner crych, a'r Tynnwr croen,  
 A'r Gwŷdd mewn poen, a'r Pannwr ;  
 A'r Tinceriaid hwythau'n curo,  
 A'r Melinydd yn mileinio  
 Ac yn tolli cymaint allo ;  
 Brickl'ers, Masons, yn dra misi,  
 Nailors, Tilers, yn cydholi,  
 Pob teiladaeth rhag tylodi.

A Gwyr y Gyfreth croes eu bryd,  
 Hoff rydid, a 'Ffeiriade,  
 Degymwyr, Trethwyr, Pwythwyr pur,  
 A siapus wyr y siope ;  
 Clochyddion, Doctors, yn cydactio,  
 Ac yntau'r Cigydd â'r gwynt cogio,  
 Weithie'n lladd ac weithie'n blingo ;

Llinwr, Turner, yn llawn taerni,  
 Glwfer, Sadler, Sodlwr gwisgi,  
 Pawb a lediant rhag tylodi.

Chwarelwr, Tyrchwr, Calchwr certh,  
 A'u Cauwr perth a'r Porthwr ;  
 Exciseman, Supervisor pric—  
 Wyr byrbwyll dric, a'r Barbwr ;  
 Brazier, Cutler, Pedler, Pwdlwr,  
 Colier, Miner, Painter, Printiwr,  
 Lliwydd, Cribydd, Pibydd, Pobwr,  
 Cario potie, cyweirio pwti,  
 A physgota, a gwneyd basgedi,  
 Pob teiladaeth rhag tylodi.

Y Cariwr Coed a'r Llifiwr cul,  
 A'r gwladedd ful ysglodion,  
 Baledwrs, Racsiwrs, Clocsiwrs clau,  
 A'r Jagers gloie glewion ;  
 Pilio rhisgl, a thorri a rhasglo,  
 Cordio a llosgi, cario a llusgo,  
 Forgemen, Founders, pawb yn ffwndro,  
 Llongwyr, Sawdwyr sydyn, gwisgi,  
 A swyddogion sydd i'w rhegi,  
 Rwygant wledydd rhag tylodi.

Tafarnwr, Bragwr, Tyrchwr trwm,  
 A'r Nodwr llwm anwydog,  
 Sebonwr, Canwyllwr, gweithiwr gwer,  
 Y Swip, a Chobler chwiblog,  
 Hetiwr, Clociwr, Garddwr gwirdda,  
 Y Towr a'r Cowper taer eu copa,  
 A'r Turnpeiciwr â'r trwyn pica ;  
 Trolie gannoedd a gwageni,  
 A Gwyr yr Hetie a'u gwarre ati,  
 Yn gyrru'n lliidiog rhag tylodi.

Rhai yn cerdded gwlad a thre,  
 A rhyw goeg wyrthie i'w gwerthu ;  
 Rhai yn crio yn nryse tai,  
 Mewn cwynion—a rhai'n canu ;  
 Telyniwr, Ffidler, Joci, Porthmon,  
 Bailli, Cwnstabl, Jailer, Hangmon,  
 Rhai'n dwyllodrus, a rhai'n lladron ;  
 Felly beunydd mae rhai'n ymboeni  
 Mewn rhyw alwad yn rheoli,  
 Rhwyg taledig, rhag tylodi.

A swm y cwbl drwbl drud,  
 O boene'r bywyd beunydd,  
 Yw'n dysgu ni drwy dasg a wnaeth  
 Gair odieth y Creawdydd ;  
 Beth ond tylodi a phob hynt lidiog,  
 Sy'n galw dynion er gweld enwog  
 Allu llaw yr Hollalluog ?  
 Am bob doethineb a berthynant,  
 Y'mhob celfyddyd, hap coelfeddiant,  
 DUW a ddylai gael addoliant.

*Ymddengys Rhinallt Arianog, y Cybydd.*

*Rhinallt.* Wel, rhyfedd y canu bydd pob cacynen,  
 Ac yn pwnio rhyw hanes wrth eu pen eu hunen !

*Tom.* Arefwch beth, yr oeddw'n i'n bur,  
 Yn canu'r gwir yn gywren.

*Rhin.* Nid anaml y gwelir yn unman  
 Na fo bawb yn wahanol yn canmol ei hunan.

*Tom.* Wel, hoff ge nych chwithe ganmol eich  
 cod,  
 A chyreddd clod ch arian.

*Rhin.* Nid oes dim drwy'r byd presennol,  
 Gymaint yn haeddu eu canmol ;  
 Onid am yr arian, wiwlan wawr,  
 Mae bychan a mawr yn 'morol ?  
 Onid am yr arian mae'r dymer erwin,  
 Mewn Esgobion a 'Ffeiried, a phobl gyffredin ?  
 'Does dim yn gwneyd lles, mi gymraf fy llw,  
 Mwy breiniol na delw'r brenin.

*Tom.* Wel, mi wn fy hunan, heb wahanu,  
 Mai delw'r brenin a dâl i brynnu ;  
 Ond mae arian drwg mewn gwlad a thre,  
 Gwedi i ryw bethe eu bathu.

*Rhin.* Mae'n dda gennyf arian yn fy nghalon,  
 Pe medrwn inne'u bwrw, mi leiciwn yn burion ;  
 Mi wnawn yn rhyfedd yn fy rhan  
 O ginis ac arian gwynion.

*Tom.* Nid oes yn gyfreithlon wedi eu trefnu,  
 Ond arian y brenin i werthu ac i brynnu ;  
 'Dyw'r lleill ond rhagrith, yn lle gwir hawl,  
 Ddyfeisiodd y diawl a'i deulu.

Pob hudolieth y mae pawb i'w dilyn,  
 I ddianrhydeddu enw'r brenin,  
 Sydd megis rhith o grefydd bas  
 Heb roddiad gras yn wreiddyn.

Mae arian brenin Cymru a Lloegr,  
 Yn deip o'r fendith sy'n talu cyfiawnder ;  
 Nid yw, heb raslon gyfreithlon fryd,  
 Ein dyfes i gyd ond ofer.

Rhaid i'r Cristion cywir wastad  
 Ddal cywren ddelw y cariad,  
 'Run modd ag y deil, rhwng dyn a dyn,  
 Arian y brenin bryniad.

*Rhin.* Rhyfedd y cymereist mewn cymharieth,  
Yr arian anwyl yn destun pregeth ;  
Ond mi wn nad oes mewn gwlad na thre  
Gysonach llyfre gwasaneth.

A gwyn ei fyd y bawen a gasglo bower,  
O ! na fedrwn eu mudo, heb na rhifna meder ;  
Mae'n hawdd i mi ddallt mai nhw sy'n dduw,  
A nefoedd, gan amryw nifer.

*Tom.* Pwy bynnag sydd â'i dduw goruchel,  
Na'i nefoedd mewn un afel,  
Heblaw yn y gwir Air cywir cu,  
Fe gaiff ei nesu'n isel.

Mae llawer yn dewis duwie  
Mewn cyweth yn y tai, neu'r caue,  
Yn eu catal, neu'u llafur, beth bynnag llai,  
Ac mae ffoledd rhai'n eu cyffyle.

Lle bynnag bo'r calonne, a llwybr y canlyniad,  
Yno mae'r trysore, waeth tewi na siarad,  
Mae gan bawb ryw dduw wrth ei feddwl ei hun,  
I ddilyn ei addoliad.

*Rhin.* Wel, ni wiw taeru na chadw twrw,  
Fy nuw i ydyw'r arian byth hyd farw,  
Nid oes gennyf hyder mewn dim o hyd  
Ond golud y byd ac elw.

*Tom.* Well, Tom Tell Truth ydwyf fi trwy'r eitha ;  
Waeth rhoi'r gwir teg atoch heb fod yn gwta,  
Tra f'o chwi'n caru'ch clod a'ch mawl,  
A'ch power, mai'r diawl a'ch pia.

*Rhin.* Wel, chwedl garw ymhob rhyw gyrion,  
Ddewred a doethed ydyw pob cymdeithion ;  
Mae'n gas i ddynion glywed cymaint o'u *hairs*  
Fydd rhyw ysgolars gwaelion.

A rhyfedd fel y cyfyd ysgolheigion tin caue,  
 Ffyllied penne 'gored, f'on cerdded y cyrdde,  
 Cheiff dynion ar fusnes ddim eiste'n hir,  
 Na fernir hwy mewn tafarne.

Mae Cyriadox neu ryw goeg redieth,  
 Ymhob cwmni y nhwy ydyw'r penneth ;  
 Ni fydd dyn fymryn yn ei fyw,  
 Heb rigwm o ryw bregeth.

O! pobl dostion ydyw'r Methodistied,  
 Rhuo am eu crefydd y bydda' nhw bob crafied,  
 Ceir clywed y carpie cas eu cuwch  
 Yn swnio'n uwch na'r personied.

Fe geir gan y person, yn llon mewn llawenydd  
 Ryw stori ddiniwed, neu ddysgwrs papur  
 newydd,  
 Yn fwynach na'r llymgwn sy'n mhob lle,  
 A'r 'Sgrythyre yn eu penne beunydd.

Mae'r personied enwog 'r un fath a dynion,  
 Y sulie a'r wythnose am y byd a'i fusnesion,  
 Ni ddwedant hwy'n amser air o'i le,  
 Oni bydd y degyme'n geimion.

Ond gyda gwr âg arian gwneir pob peth o'r  
 gore,  
 'Ran gwell gan y person gwmmi gwyr y pyrse,  
 Na'r carpie tylodion sy hyd y wlad,  
 Yn cadw nâd am eu 'neidie.

Sonian a chrafan am dduwioldeb a chrefydd ;  
 Ni wn i fawr am dani, beth bynnag yw ei  
 deunydd,  
 Ond cymaint a weles neu a dreies i o droie,  
 Am bob gwr âg arian doi drwyddi o'r gore.

Er son am ddoethineb, a rhyw drwst o'r fath  
 honno,  
 Arian ydyw'r cwbl, hwy ant yn deg heibio,  
 Pe bae bobl d'lodion a'u synwyr mor lydan,  
 Ni chant fyth eu bwriad tra fyddont heb arian.

[*Ymddengys Lowri Lew.*]

*Lowri.* A glywi di, Rhinallt, onid wyt yn erwinol,  
 Fod yn sefyll ac yn rhuo fel hyn y'mhen'r heol?

*Rhin.* A glywch chwithhe, mam, 'rhen drwyn dig,  
 Ond ydych yn ffyrnig uffernol?

*Low.* Pwy ddrwg sy ar y bachgen milen ei  
 gymale,

Rhoi coegni i'th fam sy ar ei gore;  
 Onibae mod i'n wreigan lew gynddeiriog,  
 Ni fuasit ti, Rhinallt, byth mor ariannog.

*Rhin.* Paham rhaid i chwi edliw a chodlo,  
 Am fynd yn g'waethog, ond myfi oedd yn  
 gweithio?

Ni wnaethoch chwi fawr at fynd yn gwaethog  
 Oni ddygech chwi dipyn oddiar gymydog.

*Low.* O! taw son, fy machgen, am ladrad,  
 I g'wilyddio dy frawd sydd yn offeiriad;  
 Lle b'o wr bonheddig ar ben eiddo,  
 'Does dim wrthunach na thrwst fath honno.

*Rhin.* Bon'ddigion braf ydych chwi ac ynte,  
 Diolch mawr i mi am fod gartre;  
 Onibae i mi weithio a ffyrnigo'n eger,  
 Ni thal'se'ch bon'geiddrwydd chwi mo'r llawer.

*Low.* Onid oedd dy dad a minne'n boenus,  
 Yn gweithio cyn d'eni di'n ddigon daionus,



Wedi prynnu tir, a chasglu llawer,  
Cyn iti ddysgu sychu dy grwper?

Ac nid oeddwn i ddim, mi fynna i chwi wybod,  
Yn mynd i'm priodi fel pob chwilenod ;  
Mi fum i saith mlynedd yn sêth ymlonni,  
Heb son am danat ti cyn d'eni.

'Roedd dy dad mor ddaionus, newydd i'w ened,  
Fe ddae'r flwyddyn honno bob peth ar ei ganfed,  
Buwch a dau lo, a'th dithe yn drydydd,  
Ni fu acw 'rioed y fasiwn gynnydd.

Ac felly y megais i di, fy machgen,  
Ar unwaith a'r lloie'n ddigon llawen ;  
Ond 'roedd byd mwy diofal wrth fagu'th frawd  
Ifan,

Mi es i gadw morwyn, fe gostiodd im' arian.

*Rhin.* A glywch chi, mam heb gam ymgomio,  
Fe gadd Ifan fonheddig acw lawer o'n heiddo,  
Rhwyng ei gadw'n 'r ysgol, a phob rhyw esgus,  
Mi wn i'n ddigwestiwn ei fod e'n bur gostus.

*Low.* Onid oedd y cwbl cyd-rhyngom pan fu'ch  
tad farw,

'Roedd raid felly'r hanner ddigwydd i hwnnw,  
Ac fi oedd ysgutor, dda onor, ddaionus,  
Onid allaf fi, felly, wneuthur fy 'wyllys ?

*Rhin.* Soniwch am eich 'wyllys, mi'ch gwna  
chwi'n archollion,

Oni chaf i'm gafel y cwbl sydd gyfion ;  
Gan ei mynd hi cyn belled, pe baech yn  
amhwyllo,

Ni chewch ond y traian, ni wiw 'chwi mo'r treio.

*Low.* Hold yno, weithian, gwna dy waethaf,  
Myn y gwr o Ruthin, mi gariaf fi'r eithaf,

Ni chei di lwy gwta gan i, 'r hen lygotwr,  
Am iti gynnyg gwneyd yma gynnwyr.

*Rhin.* Mi glywn ar fy nghalon onibai rhag fy  
nghwilydd,

Y wrach anuwiol, roi i chwi own newydd,  
Merciwch chwi, hefyd, ni wnaif fi lai na chofio,  
Os deliwch ataf, na thala'i chwi eto.

[*Diflanna Rhinallt.*

*Low.* Dy waethaf di, Rhinallt, ni wiw iti draenio,  
Ni 'rosa'i ddim rhagor, i gymryd fy nghrugo ;  
Mi 'madawaf â'r lleidr cyn cymrwyf golledion,  
Af at fy mab arall, ac a fyddaf fyw'n burion.

Mi gesgles arian a phob trysore,  
Ni choelie neb gystal ydyw rhai o'r hen gistie,  
Mi guddies arian lle na wyr yr hen Syre ;  
Peth garw ydyw garwch, mi ddo i drwyddi hi  
ar gore.

'Does dim yn fy fecsio, mi golles hen facsen,  
Oedd ynddi hi ragor na deg punt a'r hugien,  
Ond ni hidia'i fy taten, mae can punt eto,  
Gennyf mewn bwndel tan walblaid y bondo.

Mae deg punt yn swrcwd, wedi gwnio'n fy  
surcyn,

Ac ugen mewn maneg, tu draw i'r gist 'menyn ;  
O ! na welwn i'r mab sydd genni'n offeiriad :—  
Mae lwc imi, o'r diwedd,—dyma fe'n dwad.

[*Ymddengys Mr. Ifan Offeiriad.*

*Ifan.* Eich bendith, fy mam, 'rwyf fi'n ei ofyn.

*Low.* Dyma ragor cynddeiriog rhwng y ddau  
blentyn—

Un yn ymostwng yma i mi,  
A'r llall yn fy rhegu, O ! rogun.

Tri Chryfion Byd. 57

*Ifan.* What was the matter, dear mother?

*Low.* O siarad Gymraeg, 'rwyf mewn natur  
hagar,  
O ran dy frawd Rhinallt, aeth yn waeth na  
draenog  
I fwgwth fy nghuro i'n annhrugarog.

*Ifan.* O dear, mother, beth yw'r cythryfwl?

*Low.* Nid wyf mor fyddar ag mae rhai'n ei  
feddwl;  
Mi glywaf ac mi wela'r peth leiciwyf fy hun,  
'Rwy'n o sydyn ar fy sawdl.

*Ifan.* Beth aeth rhwng Rhinallt a chwithe 'rwan?

*Low.* Wel, o'th achos di 'roedd e'n erthychan,  
Ac yn ysgowlio â mi, rhag ofn fy mod  
Yn dirwyn it' ormod arian.

*Ifan.* Well, I don't care, I'll do ar gore,  
Gwell i chwi, mam, ddod gyda fi adre.  
Cewch barch mewn henaint, hynod ddrych,  
A lliwdeg wych ddillade.

*Low.* Mae dy wraig di'n Saesnes, fy machgen  
cryno.  
Ni fedraf fi siarad gair â honno.

*Ifan.* Mi gadwaf forwyn deg ar dwyn,  
At undeb mwyn, i'ch tendio.

*Low.* Cadw imi forwyn, 'delwy byth i Lanfwrog,  
Oni fyddaf drwy orchest yn hen wraig ar-  
dderchog;  
Mi ga' ngolchi drwy sebon, rhag edrych yn  
shabi,  
Oni fydda i gen laned ag unferch y leni.

Mewn dillad newyddion pan weddus ym-  
wisgaf,  
Bydd llawer o'm deutu'n rhyfeddu pwy fyddaf,  
Mi ddof mewn mawrhydi yn ledi dew lydan,  
Heb na byd nag yslafri, os peidia i ag  
yslefrian.

Gan gael fy myd cystal, delwy fyth i'r castell  
Onid oes ynddwi, 'n ddiochel, gryn lawer o  
ddichell;

Awn adre ein deuwedd, 'rydwy'n deallt  
Y gwnawn ni drinieth ar dy frawd Rhinallt.

*Ifan.* Fy mam anwyl, 'rwyf fi'n dymuned,  
Cym'rwch amynedd, yn ol eich myned,  
I drin Rhinallt ddrwg ei rôl  
Dof ar eich ol, rhof chwalied.

[*Disflanna Lowri Lew.*]

Peth mawr yw rhediad a mawrhydi:  
Nid rhaid i ddedwydd ond ei eni,  
O lawenydd yma'n lân,  
Adroddaf gân sydd geny',—

*Alaw*—"RODNEY."

Wrth weled y gwaith hylwydd  
Syn'n digwydd i bob dyn,  
Mae offeiriade mewn hoff rydid,  
A gwynfyd mwy nag un;  
Does un gelfyddyd foddus  
Mor barchus yn y byd;  
Nag ysgafnach, drwy naws gefnog,  
O fraint arianog fryd;  
Yr holl gwbl, ddwbl ddiben,  
'Madrodd dewrllais, medru darllen;

Tri Chryfion Byd. 59

Hawdd i ni, rhag poeni'n penne  
Brynu'n gwaethaf o bregethe ;  
Cawn o'r gore gyrredd anrhydedd, parch a  
rhôl,

Gydag arian, gwiwdeg yriad, gwneir 'ffeiriad o  
ddyn ffol.

Rhaid bod i Ustus, bwriad ystyr,  
A Chounsellors enwog, a chlau synwyr,  
A chyfreithwyr, chwerw frathiad,  
Yn llawn dichell a bradychiad,  
A'u triniad yn taranu, er hynny, gwneir mewn  
rhôl,

Gydag arian, gwiwdeg yriad, gwneir 'ffeiriad  
o ddyn ffol.

Rhaid i bob dull bywolieth  
Sy'n ngalwedigeth dyn,  
Gym'ryd trwbwl fanwl fynych,  
I edrych arno ei hun ;  
Ninne sydd a'n honors  
Yn rhychors i bob rhai ;  
A'r plwyfolion yn trafaelio,  
I'n tendio ni yn ein tai ;  
Ni all brenhinoedd, wiwfodd afel,  
Na bon'ddigion byw'n ddiogel,  
Nag un a welir gan ei alwed,  
Fael personol fel personied ;  
Rhaid i bob deilied wylo, a rhwyfo'n gall eu  
rhôl,

Ond gydag arian, gwiwdeg yriad, gwneir  
'ffeiriad o ddyn ffol.

Arian ydyw'r wawr hynodol  
Gyda'r Esgob, gwedi'r ysgol,  
Groeg a Lladin, gwr goludog,  
A'i ogoniant yw ei geiniog ;

Ardderchog yw'r cywaethog, a rhywiog y  
 gwneir hel,  
 Gydag arian, gwiwdeg yriad, y ffylled yn  
 wyr ffel.

*Ymddengys Syr Tom Tell Truth.*

*Tom.* Wel, ni wnaeth y diawl na'i deulu  
 Erioed amgenach canu ;  
 'Roedd gogoniant uffern, yn ddigon têtg,  
 Megis o'i geg e'n mygu.

*Offeiriad.* *Who are you, the bold face rogue ?*

*Tom.* Nid y'ch chwithe wr clên, pe tynnid eich  
 clôg.

*Off.* *Don't talk to me, thou dirty snap.*

*Tom.* O ! nid pob ffwl sy'n cyrredd cap.

*Off.* *I am a clergyman of the Church.*

*Tom.* Onid oes i chwi lwc, fe roi'r i chwi lurch.

*Off.* *What is the lurch shall come to my 'onor ?*

*Tom.* Siaredwch Gymraeg, mi ddweda i chwi  
 ragor.

*Off.* Beth 'rwyf yn bygwth arnaf fi mor bigog ?

*Tom.* Am na fydde ynoch rinwedd, a chwithe  
 mor enwog.

*Off.* Pa rinwedd sy'n eisie, os gwna'i nyled-  
 swydd ?

*Tom.* Ni cheir cywion o wydde lle bu ddrwg  
 ceiliogwydd,

Na dim llwyddiant byth o'r praidd,  
 A'r bugeiliwr yn flaidd digwilydd.

Tri Chryfion Byd. 61

*Off.* Onid ydwy'n bugeilio 'nol'r arfer gyffredin?

*Tom.* Manylach bryd cneifio nag hyd eu cynefin.  
I ddangos y ffordd rhag mynd yn sied,  
A ddylai ddefed ddilyn.

*Off.* Pa beth a ddangoswn yn rhagor na darllen?

*Tom.* Rhoi peth siampl da'n eich bywyd eich hunen,  
Pe bai'r defed yn adnabod eich llais chwi beth,  
Yn lanweth hwy a'ch dilyn.

*Off.* I b'le y dilynant hwy ni, heblaw'n gwrando?

*Tom.* I'r dafarn, yn eu ffoledd, neu hela neu fflowlio;  
Ond y mae y byd yn o siarp, nid pob deffens  
All gym'ryd leisens gamio.

*Off.* Mae gennym ni orchwyl rheitiach ei berchi.

*Tom.* Oes, pe canlynech chwi ffordd y goleuni,  
Ond eich gwaith ydyw meddwi, a hwrio, am  
wn i,  
Am eich degwm, a chysgu, a diogi.

Mae'ch corff chwi yn cyrredd byd ar gore,  
Ond bywioleth annedwydd sy ar lawer o  
eneidie,  
Heb gael gennych chwi, er maint eich tâl,  
Ond un pryd sâl y Sulie.

A hwnnw'n afachus, yn wir fynychaf—  
'Ran wrth bregethu y byddwch chwi waethaf,  
Fel pe rhoid y deillion i farnu, drwy'r wlad,  
Lliw'r brethyn, neu'r dillad brithaf.

*Of.* 'Rwyf yn barnu personied on'd yw pawb yn synnu.

[*Disflanna Ifan Offeiriad.*]

*Tom.* Mae'r gwir yn gyhoeddus, gwaer sawl sy'n ei haeddu ;

Ond am y rhai llesawl y'mhob man  
Mae bendith yn rhan y rheini.

Nid oes i'w ganmol na'i berchi'n gymwys  
O flaen efengyledd weinidog eglwys,  
Nac un o fwy melldith na hwnnw'n fyw,  
Oni fydd Duw yn ei dywys.

Dyma'r gwatwarwr sydd yn tario,  
Yn stôl y gwatwor, erioed ac eto,  
Ac efe yw'r lleidr erchyll hawl  
Mwyaf mae'r diawl yn delio.

Sonir fod Herod yn ddyn mileinig,  
Ni wnaeth ond gogleisio wrth rai gwyr  
eglwysig,  
Sy'n 'sglyfaethu wrth eu pleser ddegyme'r plwy'  
A'r eneidie sydd fwy enwedig.

Onibai fod llawer yn pregethu ac yn llywio,  
Yn onestach na phersonied, ni fydde wiw  
swnio,

Mae arna'i bron chwant yn hyn o fan  
Bregethu fy hunan heno.

Mae gennyf, i'w feddwl, destun cyfaddas,  
Yn nghylch godineb, mewn gwlad a dinas,  
Trwy'r hyn mae'r diawl yng nghalon dyn,  
Yn taflu gwenwyn gwynias.

Gwrandawed ieuentyd hoewedd,  
Ac hefyd gwyr a gwragedd,



Mae i bawb groeso, 'n gryf a gwan,  
I dderbyn rhan o'i rinwedd,—

*Alaw*,—"CUPID'S DREAM," neu "FREUDDWYD  
AR EI HYD."

RHOWCH osteg, ieuencyd, a diwyd wrandewch,  
A chwithau, rai priod, naws hynod, neshewch,  
Naturieth, nwy taeredd, sy'n llygredd ei llun,  
Drwg wynie drygioni, yn berwi 'mhob un,  
Mae 'siample'r hyd y gwledydd, beunydd yn  
ddiball,  
Yn dangos yn gyffredin, mai gerwin ydyw'r  
gwall,  
Gan mor fall amryw fûn,  
I wrthsefyll hen ffasiwn temtasiwn y dyn ;  
Truenus mewn ieuencyd yw'r gwendid hwn ar  
goedd,  
Pair w'radwydd mewn priodas, mwy atgas yma  
oedd  
Garwa bloedd, gwyr a blys,  
Neu wragedd rhywiogedd dan lygredd di lys.  
Mae rhwyme priodas yn urddas fwynhad,  
O'r eglwys oreuglod, mên hynod mawrhad ;  
Ond anian godineb gwrthwyneb gerth yw,  
Ffieidd-dra c'wilyddus anfoddus i fyw ;  
Pam raid i wr priodol ymorol am ddim mwy,  
Un ddynes fo'n ddiana' wasanaetha'n eitha 'nwyl ;  
Ni roed dwy yn rhaid dyn,  
Iawn ran un ar unweth sy berffeth bob un :—  
Un gwr yn anrhydeddus, lewyrchus, barchus ben,  
Un wraig, un corff priodol, da siriol gnawd  
di sen,  
Un asen wen gynesa'n wir  
Ymysgaroedd ei phriod dianglod ar dir.

Mae felly gyfeillach da olliach rhwng dau,  
 A gario, drwy gariad, wiw rwyriad yr iau ;  
 Ond gwr lle bo gordderch i'w draserch ar  
 droed,

Ni ddaeth ond y feilldith o ragrith erioed ;  
 A gwraig, lle bo gair egwan, am wantan fuan fai,  
 Pwy gynnwys fwy drygioni, trueni mawr di drai ?  
 A phwy a sai', mor hoff yn siwr,

Ag anwyl wraig ddirwest, fo gonest i'w gwr ?  
 Gwych hefyd yw merch ifanc, na allo un llanc,  
 mewn llid,

Ddweyd unwaith air am dani, yn groch i beri  
 gwrid ;

Gwyn ei fyd y gain wiw ferch,  
 A gadwo ddiweirdeb, gysondeb cu serch.

Fe ddylid byw'n ddilys, ofalus ddifeth ;  
 Mae'r cythrel yn gweithio neu'n pwytho'n  
 mhob peth ;

Rhwng mab a merch ifanc mae'i grafanc e'n  
 grych,

Rhwng gwr a gwraig briod oer drallod yw'r  
 drych ;

Y pechod hwn sy'n tynnu i lygru aml un,  
 Mae lledrad mewn anlladrwydd, a chelwydd  
 afiach wŷn,

A llawer llun, llywio a lladd ;

Mae'r pechod yn awchlwm a grym o bob gradd,  
 A rhaid er mwyn anrhydedd, trugaredd am bob  
 gwall,

I ddyn gael gweled gwaeledd ei lygredd fuchedd  
 fall,

Troi nid all, y truan dwys,  
 Heb 'nabod oddiuchod, ei bechod yn bwys.



Faint, illegible text or markings are visible at the bottom of the page, possibly bleed-through from the reverse side or very light printing.



YR HEN DENANT.

(*Darlun gan H. Williams*).

"Ac ynte'r hen denant bron a diwyno  
Heb wybod be i ddwedyd, ond diodde i wawdio."

*I wynebu tud. 65.*

Tri Chryfion Byd. 65

[*Ymddengys Rhinallt Arianog, y Cybydd.*]

*Rhin.* Wel, mawr ydyw gwynfyd rhai'n byw  
dan ganu,

Nid yw'r byd yn fforddio i mi heno mo hynny.

*Tom.* Ac ni fynnwch chwi'n awr fod canu ar neb,  
Mae'ch gwyneb chwi'n cenfigenu.

*Rhin.* Pa beth oedditi ti'n ganu'n ddigonol?

*Tom.* Cân yn erbyn godineb dynol;  
Gwaith Twm o'r Nant, *if you know the name,*  
Un a wyddai am y game yn weddol.

*Rhin.* Oni chlywes yr hanes y bydde'r gwr hwnnw  
Yn hoffi yn fynych fwynych fenyw?  
Os aeth e' i bregethu yn erbyn gwynt  
Naturieth, mae'n helynt arw.

*Tom.* Onid yw'r gair mewn llyfre,  
Mai hen leidr ceirw yw'r *park-keeper* gore,  
A hen bechaduried sy fwya' doeth,  
Am wneyd yn goeth bregethe.

*Rhin.* Ond wrth dueddrrwydd eu naturiaethe  
Mae llawer yn llywio neu'n gweithio'u  
pregethe,

Heb feddu'n iawn na dawn na dysg,  
Yn pwnio yn wysg eu penne.

Bydd person meddw yn pregethu am sobri,  
A pherson tlawd yn son am 'luseni,  
A pherson cwaethog yn estyn ei big  
Ac yn barnu'n ddig am ddiogi.

*Tom.* Yr iawn athrawieth areth ore,  
Yn lle gwrando rhai'n pwnio wrth eu penne,  
Ydyw adrodd y gwir, er gwell, er gwaeth,  
Wedi profi'n ffraeth o'i ffrwythe.

Nid yw'r holl gwbl ond dall geibio,  
Bydd dynion dylion dan eu dwylo ;  
Son am y nef fel rhyw dref ar droed,  
Neu ddinas, heb erioed fod yno.

A son, a bloeddio, a rhybuddio byddis,  
A bwrw tuag uffern bob drwg offis,  
A bod yno dân a brwmstan prudd  
Perygl, fel Mynydd Parys.

Ac fe'i berniff rhai hi'n Mynydd Etna,  
Ond na chym'rwn mo'n siomi, mae hi'n llawer  
nes yma,  
Yn gweithio beunydd yn y byd,  
Ymhob ynfyd ond y boenfa.

A phan elo'r corff i'r ddaearen,  
Eiff yspryd pob un i'w elfen ;  
Gan hynny, teimled pawb eu taith,  
A'u hynod waith eu hunen.

*Rhin.* Yn siwr mae gennyt heddyw  
Ryw ryfedd daeredd drwr ;  
'Rwy'n tynnu'n 'awr at drugain oed,  
Ni fyfyrus erioed am farw.

*Tom.* Wrth gofio, mae genni i chwi newydd  
chwerw,  
Mae eich mam anwyl wedi marw.

*Rhin.* Naddo erioed, mi wrantaf fi,  
Oni ddigwyddodd iddi dorri'i gwddw.

*Tom.* Oni alle hi farw fel ei chym'dogion ?

*Rhin.* Na, 'roedd hi'n wraig iachus, â dannedd  
gwyhion,  
'Does dim achos i neb, debygwn i,  
Feirw, onid eiff rheini'n fyrion.

'Roedd hi'n anghynefin â ffâr fon'ddiggedd,  
Te, a rhyw gige, a bara gwyn gwagedd ;  
Pe cawse hi uwd a llymru, a bara llaeth,  
Ni fuase hi gwaeth gan' mlynedd.

*Tom.* Ni wiw i chwi gwyno'n unmodd  
Eich colled, hi fu fyw tra gallodd ;  
A phan ffaeliodd drin ei hen droell dradl,  
Ei hanadl a ddihoenodd.

*Rhin.* Nid oes gennyf ddim ond ofni, weithian,  
Bydd ei hysbryd hi'n hyllig yn codi allan—  
'Ran 'roedd ei dichell ar bob tro  
'N gynddeiriog am guddio arian.

*Tom.* Fe alle, os gwnaeth hi felly,  
Mai acw bydd hi'n baeddu,  
Ond mae gennyf farnad, yn dweyd yn swyn  
Eich colled ar dwyn am dani.

*Rhin.* Mi glywis byddai'r hen brydyddion  
Yn gwneyd barnads i wyr a gwragedd  
c'waethogion ;  
Gâd dy glywed dithau'n deg,  
'N ei ganu'n landeg union.—

*Alaw*—"LLEF CAER WYNT."

*Tom.* Gwrandewch ar alarnad, neu farnad a  
fernir,  
Oer larwm am Lowri, mewn cyni ddatcenir,  
Hen wreigan rywiogedd wych agwedd, i'w chegin,  
Fu'n cadw ei mab Rhinallt cyn laned a brenin,  
Hel llau 'mob llain, a'r chwain o'r chwys,  
O gylch ei groen a golchi ei grys.  
Gwraig daclus, foddus, fuddiol, a drwsie glose'n  
glysol,  
Gwnae 'sane yn gysonol, a nyddai llin olynol,

A chribe'n bleidiol wlan a blew,  
 O newydd iddi, Lowri lew.  
 Hi weitnïe'r nos wyth awr neu naw,  
 Hi gode'r bore i 'mgydio â'r baw ;  
 Ni fu â llaw ar gosyn mwy hollawl am ei henllyn,  
 Hi drinie laeth âg undyn, a hallte'n fanwl fenyn  
 A gadwe flwyddyn gyda'i flew ;  
 O newydd iddi, Lowri lew.

Mae'n chwith i'r 'nifeilied, mewn dwned am dani,  
 Ieir, hwyed, gwydde a moch, sydd yn gwaeddi ;  
 A'r lloie bach anwyl sy'n drwm eu hochened,  
 A phrin iawn y pora pob buwch nesa'r pared.  
 Ac mae'r ceffyle mewn coffäd,  
 A'r ychen oll yn chwerve eu näd,  
 A'u brefiad yn abl brifo'r calonne clau a'u clywo,  
 Trem galar trwm ac wylo, wna i gwn a chathod  
 chwitho,

Wrth aruthr deimlo'r anrhaith dew,  
 A gaed yleni am Lowri lew.  
 Hi aeth i'r nefoedd am wn i,  
 Ac onide, gwae i'w henaid hi,  
 'N iach iddi wedi'n wydyn, fyth unweth gael  
 llaeth enwyn,  
 Na dwr i oeri ei duryn, os aeth i gôl y gelyn,  
 A'i chorff yn rholyn fel y rhew ;  
 Ffarwel am dani, Lowri lew.

*Rhin.* Wel, newydd i'w hened hi, er hynny,  
 Ond mi fynna'i dâl gonest i ti am ganu,  
 'Roedd fy mrawd yn o fawedd er cyn gwyl Fair,  
 Na chwawwn i air i'w chladdu.

*Tom.* Ni wyddoch chwi, Rhinallt, eto ronyn,  
 Na fydd eich brawd yn bloeddio 'mhen un  
 dydd a blwyddyn,



Yn gwneyd i chwi chwalu'ch celfi cu,  
Dedwyddwch eich ty, a'ch tyddyn.

*Rhin.* Wel, mi dalwn yn ddigon dilys,  
Hollawl, am gopi o'i h'wyllys.

*Tom.* Rhowch imi arian, ni fydda' i hwy,  
'N mynd i Lanelwy'n hwylus.

*Rhin.* Dyma i ti gini — fedda' i fawr arian  
gwynion.

*Tom.* 'Dyw pobl Llanelwy ddim yn haelion ;  
Mae yno *registers* a *phroctors* a chynffonne glau,  
A rhai tyllau dynion.

[*Disflanna Syr Tom.*]

*Rhin.* Os cei di'r proctoried yn wyr tirion,  
Yn rhoddi i ti gonffwrdd, gad rhwng diawl  
a'i gynffon,

Mae nhw'n gynffonne ac yn dylle  
'N rhai garw am drin y gwirion.

Mae hyn yn helynt led anhwylyd,  
Gwnaed dyn a fynno, fe fydd yn gwynfannus,  
O achos rhyw drallode o hyd,  
Sy'n hyn o fyd gofidus.

Cesglwch arian, mae'n flinder chwerw,  
A mwy blinder gwedi'n yn ceisio'u cadw,  
Ac y mae mwy blinder, yn ddigon siwr,  
O'r hanner na'r blinder hwnnw.

Mae rhai tylodion ar hyd y gwledydd,  
Pe cai nhw unweth fyned ar y plwyfydd,  
Ni cheisient ystreifio, na gweithio'n gu,  
'Rwy'n gweled hynny'n g'wilydd.

Fe fydd rhai yn dall-geibio maï drwg bod yn  
 gybydd,  
 Mae'n fwy drwg i ddynion fod yn rhy  
 ddiddeunydd,  
 Yr hwrio a'r meddwi a'r diogi diawl,  
 A dilyn hawl anhylwydd.

Ond mae fy nghalon i mor ystyfnig,  
 I wneyd ar a allwyf, mewn tymer hyllig,  
 Cyn yr ymollyngwyf mewn un llun,  
 Yn dlawd, mi a'n ddyd diawledig.

[*Ymddengys Tom Tell Truth.*]

*Tom.* Wel, Rhinallt anwyl, mi ddois mewn dwned.

*Rhin.* A gefest ti geffyl prydydd Llanrhaied?  
 Onide 'roedd yn rhyfedd i ti ar hynt,  
 Ddod fel y gwynt, mor gynted.

*Tom.* Mi ddois i yn ollawl â'r wyllys ichwi,  
 'Roedd pobl Llanelwy yn siarad ac yn holi,  
 Mae nhw'n disgwyl rhagor yn y man,  
 O'ch arian, cyn eich oeri.

*Rhin.* Ni cha'n nhw fawr gen i, diolchoch.

*Tom.* Chwi weriwch eich gallu cyn y colloch;  
 'Roedd cythrel yn eich corddi chwi bob cam,  
 Pan yrre chwi'ch mam oddiwrthoch.

*Rhin.* Darllen di'r 'wyllys, yn bwyllus bellach.

*Tom.* Ni chlywsoch chwi 'leni ddim siarad  
 creulonach,

*In the name of Còd ac Amen ydyw'r dechre,  
 Ond nis gwn i am ei ganol sut i agor mo'm gene.*

*There is two Trustees for appraising present,  
 Mr. John Trimwell a Mr. Hugh Torment,*

Y rheiny sy'n edrych na fo dim gwyrhydri,  
Ond pob peth yn lanweth i gael ei gyflawni.

*In the first place, for your brother Evy  
There is two hundred pounds of clear money,  
And three hundred again for his daughter Fanny,  
Mi debygwn mai pum' cant ydyw hynny.*

*Rhin.* Pum' cant o ba beth, dywedwch ar unweth ?

*Tom.* Deucant i'ch brawd a thrichant i'r eneth,  
Ac mae gwmpas degpunt eto'n dost  
Yn digwydd ar gost cyl'digeth.

*Rhin.* O ! 'r felldith greulon, trallodion lliidiog,  
Beth wna i o gynddaredd wrth fy mam  
gynddeiriog ?

Pe gwelwn i hi'r funud yma'n hyn o fan,  
Mi a'i curwn hi'n annbrugarog.

*Tom.* Ow, Rhinallt anwyl, mae'n erchyll d'enw !  
Curo dy fam sydd wedi marw !

*Rhin.* Ni waeth gen i pe gwelwn, yng ngwydd  
plwy,  
Hi a Llanelwy 'n ulw.

*Tom.* Gwared ni rhagoch, tewch a rhegi  
I chwi 'roedd hi'n perthyn, ni all yma neb wrthi.

*Rhin.* O mi af at gyfreithiwr heddyw brydnawn,  
Yn hwylus iawn i ymholi.

[*Dislanna Rhinallt.*]

*Tom.* Wel, pe 'r aech chwi heno  
Tuag uffern, fe fydde hi'n gwffio ;  
A digon tebyg y chwelid y tân,  
Wrth i chwi a'r hen wreigan rwygo.

Wel, dyma'r helynt a'r dymer halog,  
Cenfigen a chynnen yng nghalonne rhai  
chwannog;

Mae dull eu gweithredoedd ym mhob man,  
A'u geirïe hwy yn annhrugarog.

Ac nid yw'r holl ofidi ond rhag mynd i dylodi,  
Tagu calonne mawr a mân mae arian, fel mieri.

A llyged rhai, mewn dull eger,  
Sy'n chwyddo i fyny o frasder,  
Am gynnal eu balchder yn y byd,  
Mae nhw o hyd a'u hyder.

Mae ymchwydd y byd yn treiglo,  
Fel ystori'r blaidd a'r cadno,  
Un yn dod i fyny, a'r llall yn mynd i lawr,  
Bob ffasiwn, heb fawr orffwyso.

Mae trafel gafel gofid  
Fel y tonne fydd ar Lyn Tegid,  
Daw un i'r lan drwy ffwdan ffol,  
A'r llall ar ei hol i'w herlid.

Mae weithie'r tlawd yn derchafu,  
Neu gyfoethogion yn gwaethygu ;  
Y brynie'n cwympto'n isel eu bri,  
A'r tomennydd yn codi i fyny.

Mae'r holl bethe hyn yn gweithio beunydd  
I ddangos i ddyn beth yw ei ddeunydd,  
Ac nad yw'r tlawd yn colli bob tro,  
Na'r cwbl yn eiddo'r cybydd.

Mae olwyn Rhaglunieth yn troi'n ganlynol ;  
Nid yw'r rhedfa yn eiddo'r cyflym nerthol,  
Na rhyfel yn eiddo'r cadarn call,  
Mae damweinie'n ddi ball amserol.

Ond sicrwydd ffordd y bywyd  
 Ydyw bod yn dlawd yn 'r ysbryd,  
 Am hynny mae gennyf ganiad glir,  
 Mewn didwyll wir, i'w d'wedyd,—

*Alaw*—"SAILORS BOLD," *neu* "KING CHARLES'  
 DELIGHT."

YMHOLWN, gwelwn beth yw gwaelod  
 Y t'lodi hynod sydd o hyd ;  
 Ond nerth ein pechod ni  
 A'i rhoes i boeni'r byd.  
 Trwy lais a pharabl Lusifferedd  
 Balchder egredd lygredd lid,  
 Daeth gwraidd ac effaith grwn  
 Y gofid hwn i gyd ;  
 Cynhyrriad g'leini rheswm,  
 A chwlm hunan chwant,  
 A wyrodd wawr hen Adda i lawr,  
 Er blinder mawr i'w blant,  
 Wrth geisio ffrwyth gwybodeth ffraeth,  
 O drinieth da a drwg ;  
 Melldithion o bob rhyw,  
 Dan ddialedd Duw a ddwg,  
 Gofalu a chwysu am fara,  
 A llawer gwasgfa gerth,  
 A dwyn trwy boen y plant i'r byd,  
 Mae'n ofid ymhob nerth,  
 Blindere dwys i dorri dyn,  
 Mewn amryw lun, sy' ar led.  
 Pob gwau trallode llawn,  
 Gerwinol iawn a rêd.

Trom wialen lidiog yw tylodi,  
 I gosbi a phrofi'r balch ei ffroen,

Dihatru'r gwisgoedd gwych,  
 A gwneyd yn grych y croen ;  
 Yr Israelied, niwed newyn,  
 Anrhaith dygn i'r Aifft aeth,  
 I ddiode a'u bronne'n brudd  
 Tan lawer cystudd caeth,  
 A newyn mawr Samaria,  
 Cyfyngdra c'leta i'n clyw,  
 Gwaedd fater blin oedd fwyta'r plant,  
 Yn borthiant o ran byw.  
 Caersalem wych, ceir sylw mawr,  
 Gae'i thorri i lawr trwy lid,  
 Pechode oedd eu dalfa dynn,  
 Ac achos hwn i gyd,  
 Pen Babel fawr ostynged,  
 Er ffraethed oedd ei ffrost ;  
 'Daw dyn i'w le heb dynnu i lawr  
 Ei falchder mawr a'i fost.  
 Doethineb sydd yn gweithio'n rhydd,  
 Reunydd ymhob peth ;  
 Darostwng balch ei dro,  
 A chodi fo ar feth.

Fel meirch porthiannus mae poeth wynie  
 Yn ein calonne oll ynglŷn,  
 Rhaid ffrwyn a genfa ffraeth,  
 Cyn torri'n gaeth ein gwŷn.  
 Trwy boen a llafur erchyll ofid,  
 Tylodi ac adfyd, d'led oer gwyn ;  
 Trwy blâu, carchar, a chur,  
 Mae dolur yma'n dwyn.  
 A'n hachos oll yw teimled  
 A gweled beth yw gwaith,  
 Llaw dirgel Duw o'i ergyd e,  
 Er mwyn eneidie maith,

Lladd hunan chwant, llwydd anian chwith,  
 Sef grym y felltith fawr,  
 Drwy dynnu balchder dyn,  
 Ymhob rhyw lun, i lawr,  
 Derchafu'r enw sanctedd,  
 Pen rhinwedd pob mawrhad,  
 Cael ysbryd gwan fel publican,  
 A chwynfan am iachad ;  
 Afradlon y'm, rhaid rhodio'n ol,  
 Drwy edifeiriol fyw,  
 Lle ceir yr ysbryd c'oeidd  
 Ar wyneb dyfroedd Duw.

Pan ddelo'r golwg hyn i'r galon,  
 O mor hyfrydion fydd y fraint !  
 Fe geiff pechadur noeth  
 Gysondeb doeth y saint,  
 Fe dderfydd rheswm cnawd ymryson,  
 Barne croesion beilchion byd,  
 Ni fydd gen ffydd un ffair,  
 Ond yn y Gair i gyd.  
 Y Gair yw'r mor annhraethol,  
 Mae'r llestri gwrol gell,  
 Mewn dawn a nerth yn dwyn yn Naw  
 Drysore byw, o bell ;  
 Fe brawf y dyn ysbrydol doeth  
 Bob peth yn goeth eu gwawr,  
 Drwy sain was naethgar swydd,  
 Yn moli'r Arglwydd mawr ;  
 Ond dyn mewn gwŷn drygioni,  
 A balch drueni byd,  
 Rhaid curo i lawr ei wawr a'i wŷn,  
 Cyn gwelo er hyn i gyd.

A dyma'r gwaith drwy dymer gwir,  
 Boed i ni ei gywir gael ;  
 Yn ifanc ac yn hen,  
 Amen, Amen, er mael.

[*Ymddengys Rhinallt y Cybydd.*]

*Rhin.* Wel, nad elwyf i Landeilo,  
 Ond dal 'rwyf ti ati hi i ganu eto.

*Tom.* Pe canech chwithe glod i Dduw,  
 Chwi allech fyw'n ddigyffro.

*Rhin.* 'Does achos i mi ganu clod i undyn,  
 Am ddim a gefais i eto ganddyn.

*Tom.* Pwy debygech sy'n rhoi'n ddi feth,  
 Eich porthiant a phob peth sy'n perthyn ?

Mae'r 'hedied a'r ymlusgied wrth eu rhyw-  
 ogeth,  
 Y pysgod a'r milod yn rhoi canmolieth,  
 A'r ych, a'r asyn, yn adnabod yn glau,  
 Eu presebau, parhaus obeth.

A chwithe gybyddion, yn chwythu ac yn  
 baeddu,  
 Fel seirff ar eich torre'n ymlusgo ac yn taeru,  
 Heb feddwl dim yn y byd ar droed,  
 Am Greawdwr, erioed, na'i gredu.

*Rhin.* Mi ddysges i'n hogyn gwanllyd,  
 Y credo, a'r pader hefyd.

*Tom.* Eich arfer chwi ydyw cysgu'n swrth,  
 Ond odid, wrth eu d'wedyd.

Mae llawer creadur anghall  
 Yn cael bara beunyddiol diwall,



Ond am ei wared rhag y drwg,  
 Rhaid cyrredd golwg arall.  
 Ac am fadde dyledion, 'rydych chwi mor lidiog,  
 A'ch natur mor gwning, na faddeuwch un  
 geiniog.

*Rhin.* Wel, wrth fod yn ffyrnig am bob ffi,  
 A gweithio, 'r es i'n gywaethog.

*Tom.* Wel, beth dâl fod yn ffyrnig felly,  
 Os bydd dyn sad olwg ac 'wyllys i dalu,  
 A'r byd yn ei erbyn, dygyn daith,  
 Trwy ofid maith yn methu?

Ond rhaid yw meddwl y dylid madde,  
 Os bydd dyn ag 'wyllys i dalu pe galle,  
 Y Creawdwr pia'r eiddo, fe all roi'n ffri,  
 I'r un fynno, ai chwi ai finne.

A pham mae rhai'n cael eu geni'n ddeilied,  
 Rhai'n colli'r fywolieth, tir, tai, neu 'nifeilied,  
 Ond dangos fod awdurdod gan ryw un mwy,  
 I dorri drwy'i greaduried?

A mawr na ddeallem drwy fwyd neu ddillad,  
 Tu hwnt colli buwch, na cheffyl na dafad,  
 Y dyle gydymdeimlad i frawd gwan,  
 Fod yn cyrredd o ran cariad.

*Rhin.* Mi dd'wedai'n glir y gwir fel y gwarant,  
 Ni fedra i ddim madde os colla i fy meddiant.

*Tom.* Nid oes i chwithe, siwrne syth,  
 Addewid gael byth faddeuant.

Ond am y dyn dwl a ffaelio dalu,  
 Mae'n rhydd ei ened o ran hynny,  
 Os bydd yn ollawl mai talu wnai  
 Gydag ewyllys pe b'ai fe'n gallu.

Mae treigliad y byd yn troi ac yn symud ;  
 Ni wiw i'r cogel fod yn ddig wrth y werthyd ;  
 Helynt flin yw pobi heb flawd,  
 Chware teg i'r tlawd am ei fywyd.

*Rhin.* Wel mae gennyt heno, yn marn pob  
 dynion,

Ryw siarad go lydan i swcro tylodion,  
 Na son am hyn yma o fewn ein plwy' ni,  
 Mae yma ddiogi ddigon.

*Tom.* Nid y rhai tylota sy'n cael talu atyn',  
 Wrth ffrinship, ar gyfer, mae'r dreth yn cael ei  
 gofyn,

Hen forwyn fonbeddig, neu gwas fo'n hy,  
 Gwedi bod yn rhyw deulu'n dilyn.

*Rhin.* Ffreinsibiant a'u ffroen syber !  
 Mae'n rhaid i denantied dalu llawer ;  
 Rhwng balchder a thylodi, syrthni sâl,  
 Fe fagwyd yma aml feger.

*Tom.* Wel, er hyn i gyd, mae'r byd yn glynu,  
 Rhai'n ei gynnal, a rhai'n ei oganu ;

Un yn gryf a'r llall yn wan,  
 A phawb yn cael rhan, er hynny.

Ond y diawl Lusifferaidd, ni wneiff lai na phori,  
 Yng ngweirglodd naturieth, lle mae trachwant  
 yn torri ;

Ond yr Hwn sy'n cynnal y gwych a'r gwael  
 A ddyle gael ei addoli.

[*Dislanna Syr Tom.*]

*Rhin.* Wel, rhyfedd cymaint ym mhob cyme,  
 Mae dynion penweined yn bell o ympiniwne !  
 Ac anhawdd yw dirnad ym meddwl dyn,  
 Yn siwr, pa un sy ore.

Mae un ffordd yma, a'r llall ffordd acw,  
 Un yn sobr, a'r llall yn feddw ;  
 Un yn fawr, a'r llall yn fach,  
 Ni fu erioed ddim taerach trwr.

Ond os bydd gennyf olud, mi gaf i nilyn,  
 Geraint a ffrindie'n anghyffredin ;  
 Ond os af fi'n dlawd, mi wrantaf fi  
 Y byddan' nhw'n oeri'n erwin.

Nid a'i ddim yn dlawd dros fynhyntu'n aelode,  
 'Rwy'n uchel fy 'stwmwg, mi wna'f bob ystumie,  
 Mi dwyllaf ac a gogiaf ac a floeddia'n flin,  
 Ac a frathaf i drin cyfreithie.

O! mi fum yn Llanelwy, dyna'r lle anwyla  
 A weles i erioed nac eto nac yma,  
 'Rwy'n credu y bydda i 'mhen tipyn bach  
 Oddiyno'n iach ddiana'.

'Roedd pawb mor ollawl eu cyfeillach,  
 Yn fy ngalw i'n feistr, er mod i'n rhyw fustach,  
 Nid alle ddyn weled mewn rhediad rhol,  
 Ar f'eiioes i, bobl fwynach.

Hwy fuont yn eistedd bawb cyn onested,  
 Yn yr eglwys uchaf, nes oedd arnynt syched,  
 Ac i'r White Lion oddiyno ar fyrr  
 Ni aethom yn yrr i waered.

A dyna lle buom ni bawb am ein bywyd  
 Yn bwyta dan duchan ac yn yfed iechyd,  
 A phawb yn llanw cwrw cu,  
 A licers hynny leicid.

'Roedd y *Register* a'r *Proctor* yn pratio imi'n  
 greulon,  
 Ac ni allech ganffod un mwynach na'r gynffon,

Ni ddywedase mo'r llawer mi gym'raf fy llw,  
Pe tal'swn i am gwrw goron.

Ond beth bynnag a wariaf 'rwy'n foddlon, m  
wranraf

O hyn i ben tri-chwrt, y fi fydd y trechaf,  
Mi wranta dof i drwyddi hi, ni fydda i dro,  
Weithian, gwnaed Ianto ei waethaf.

[*Diflanna Rhinallt.*

*Daw Cariad i mew'n dan ganu.*

*Alaw—"Y GALON DROM."*

*Cariad.* Clywch dderchafiad, geirwir gariad,  
Pur bwyth, bwriad popeth byw,  
Dechreuol wreiddiol ryw, 'does unrhyw heb fy  
swydd ;

'Rwyf fi'n gynhyrfiad gwres cenhedliad,  
Teimlad cariad magiad mwyn,

A ddeil bob peth i ymddwyn,

I'w ryw yn addfwyn rwydd,

Yn llwybr natur noeth,

Pwynt enwog eirias, tân o gariad,

A'm bwriad yma'n boeth,

Drwy bob creadur byw, hynod yw anian doeth,

Mae'r llewod mawr eu llid, a phob aflan  
fwystfil byd,

Yn cyniwair i'w cenawon yn gyson iawn i gyd,  
A chariad piau'r mawl, allu hawl, felly o hyd.


Twy wynt a dyfroedd, moroedd mawrion,


Trwy beryglon digllon daith,

Mae cariad, fwriad faith, yn berffaith ac yn bur,

Er i Satan anian wynie, fagu'n grau genfigen  
gre',

Y cariad sai'n ei le, drwy dân acarfau dur,





SYR TOM A GWIDDANES TLODL.  
(*Darlun gan A. E. Elias*).  
"Braidd na waeddwn i fy hun  
Wrth edrych y fath un a thydi."

Tri Chryfion Byd. 81

Er digwydd fel y daeth, drwy'r cwmp drueni  
caeth,  
Fe gafodd cariad fwy amlygiad, a phrofiad  
yma'n ffraeth ;  
'R addewid a roi Duw, cywren yw, 'n caru a  
wnaeth,  
Ac achos unig yw, adnabod hwn yn Nuw,  
Caru'r ffwythe gwir effeithiol, ysbrydol radol  
ryw,  
'Ran dyna'r nerth a'r nodd, swydd union fodd,  
sydd inni fyw.

*Ymddengys y Brenin Angau.*

*Angau.* Pwy ydyw hon yn rhwysg ei chryfder,  
Sy'n ymddyrchafu ar ei chyfer?

*Car.* Ym mhob peth sydd a bywyd ynddo  
Mae elfen cariad yn concwerio.

*Ang.* O, taw a son, ti wirion Gariad,  
Beth yw dy fawredd a'th hudfwriad?  
Pan darawa' i'r ffryns anwyla'n farw,  
P'le bydd dy hanes di'r dydd hwnnw?

*Car.* 'Rwyf fel tân, ymlaen y tynna,  
At y byw sydd heb eu difa,  
Mae'n elfen cariad fywiol anian,  
Cymer y meirw i ti dy hunan.

*Ang.* Cym'ryd a wnaaf, ni all neb fy rhwystro,  
Bob math ar beth sy a bywyd ganddo ;  
Maent er y cwmp tan oresgynfa,  
'N ddarostyngedig i'm dyfodfa.

'Cha'dd neb erioed ddiangfa o'm gafel,  
Oddieithr dau ysbwyr dirgel,

A rhai'n bu'n orfod, drwy fawr helynt,  
I'w Meichie dalu'r eithaf drostynt.

Os ca'dd y pysg ddihangfa'r diluw,  
Mae gennyf awdurdod ar bob cytryw,  
Ar bob creadur brenin ydwy,  
Mi ge's fy nodi'n ddychrynadwy.

O ! fel y bydd natur yn ochneidio ac yn ofni,  
Pan fo mhyrth haiarnaidd i'n cau arni ;  
'Rwy'n deyrn mor ofnadwy yn peri dychrynod,  
A wna i wregys lwyne'r cedyrn ymddatod.

Myfi ydyw'r un mewn gwŷn annigonedd,  
A lwnc o'r holl ddaear bob peth â'm cynddaredd ;  
Mi ddweda am lais udgorn, ' Ha ! ha ' heb lais  
actio,

Aroglafrifel o bell, twrf tyw'sogion, a bloeddio.

Myfi ydyw'r lesiathan, 'does le i mi fethu,  
Mae popeth yn ollawl i'm pwyth yn allu,  
Dwr, Tan, Daear, Awyr, elfenne naturieth,  
Sy' imi'n ymwroli at achos marwoleth.

Mae cerryg a choed, firwyth gerddi a meusydd,  
Bwyd, diod, dillad, gwres, oerni a phob tywydd  
Galwedigeth eu dwylo tuag at eu cynalieth,  
Sydd gennyf i filoedd'n offeryne marwoleth.

*Car.* Mae lle imi eto godi mhen,  
Er bod dy sen di'n hagar, —  
Ni ellaist niwed â'th law gref  
I Arglwydd nef a daear.

Dyna 'mhriod hynod i,  
Mi allaf waeddi allan,  
P'le mae dy golyn dygyn di,  
Mewn gafel imi'n gyfan ?



*Ang.* Peth mawr ydyw marw a chwerw loes  
ange,

Fe grynodd rhai gonest gan earnest fy nyrne ;  
Ni cha'dd yr Un Mawr 'rwyf ti'n son am dano,  
Ond trinieth anelwig pan oedd tan fy nwylo.

Wrth iddo dalu i mi'm dirwy a'm fforfed,  
Mi a'i gwesges hyd nes y dolefodd mor galed  
Nes oedd y greadigeth yn galaru ac yn cyffro,  
A th'wllwch ar y ddaear, fe ddarfu i'r haul  
dduo.

*Car.* Ymhen y tridie gwnaeth e'r tro,  
Yn ddilys o dy ddwylo,  
Dyna'r faner ; ac ynddo fe,  
Ca'dd Cariad le i goncwerio.

*Ang.* Wel, concweried pawb eu gore,  
Gwr gonest cywir wyf fi Ange,  
Ni wnaif fi, er maint fy holl rymusder,  
Gam ag undyn yn ei fater.

Ac yn fy llywodreth yma beunydd  
Y mae'n ogyfuwch bawb a'u gilydd,  
Yn gymaint mai'r un dyled a chyfri'  
Sydd yma heb omedd ar bawb imi.

A thrwy fy eang fawr lywodreth,  
Nid oes gariad, na rhagorieth  
Rhwyng un a fuase'n frenin llydan  
A'r caethwas mwyaf distadl allan.

Rhai fuase gynt yn gedyrn trawsion,  
Yn mynnu mwy na'r hyn oedd gyfion  
Trwy nerth cleddyfe, erchyll dirnad,  
Neu trwy gyfreithie, gwyrngam frathiad ?

Maent yn cydfraenu'n wael eu helynt,  
A'r rhai buont gas, anghyfion wrthynt,

Mor gymysg na ellir mewn mynwentydd  
Ddidoli eu hesgryn oddiwrth eu gilydd.

O! rhyfedd y gwastadle eglur  
'Mysg dynol ryw wyf fi'n ei wneuthur,  
Hyd onid yw y tlawd weinidog  
Yn mwynhau'r un fraint a'i feistr c'waethlog.

Yr hwn fu'n poeni'n llwm a gwasgol,  
Yn cael yr un bwrdd â'r gŵr danteithiol ;  
A'r un fu'n rhwym gan gaeth gadwyne,  
Yn 'run rhyddid a'r hwn a'i caethiwase.

Gan hynny gweled pawb yn gall,  
'Does ffafor i neb, y naill mwy na'r llall,  
Meddylwch mewn pryd mai lle cwmpo'r  
pren,  
Bydd ei drigfa'n syth, heb byth gael pen.

[*Dislanna Angau.*]

*Car.* O! gwylwch iddo gwmpo arnoch,  
Ar farch du, pryd na ddisgwylloch,  
Ac uffern eigion, a'i ffwrn eger,  
Wrth ei sgil, a'i nerth ysgeler.

Dyma'r lle mae Ange'n chwerw,  
I'r dyn annuwiol wrth ei farw ;  
Ond i'r duwiolion â'r da waelod,  
Cymwynasgarwch yw ei ddyrnod.

Canys i'r rhai a elwir seintie  
Mae eu ffordd hwy drwy ardaloedd Ange,  
Ond ni all eu niwed mo'u gorddiwes  
Mwy na'r tân i'r llancie o'r ffwrnes.

Er hyn mae fflam drwg Ange'n hedfan  
I losgi dillad y rhai tu allan,

Ond a fo tu fewn i'r cariad effro,—  
'Does dwfr na than all eu niweidio.

Yn ol cael golwg trwy oruchafieth,  
Ar borthladd dymunol iechydwrieth,  
Cânt ddweyd yn llawen trwy orfoledd,—  
P'le mae dy godyn, Ange gwaeledd?

Trwy ddyffryn tywyll cysgod Ange,  
Mae cariad beunydd yn dal eu penne,  
Fel bont er lles yn cynnes ganu,—  
Gwyn fyd a allo ganu felly.—

*Alaw*—"DORSETSHIRE MARCH."

O bechaduried, dewch ar dwyn,  
I wrando cwyn a mwyn ddymuniad,  
Y gwiwlan Air sy i'n galw'n ol,  
I gyrredd grasol gariad;  
Mae ilef yn gwaeddi nos a dydd  
Yn'r heolydd, O! mor heleth,  
Yn rhoddi gwa'dd i bawb ar g'oeedd,  
I diroedd iechydwrieth.  
O'r fath gariad wiwrad eirie,  
Y carai Duw ni pan roi'n ddie,  
Ei Fab yn aberth tros eneidie,  
Ow, na welem ninne'n wiv  
Mai gore dawn yw caru Duw;  
Pam y carwn hunan hyder,  
Byd, a chnawd, a thwyll, a ffalsder?  
Caru elw, caru pleser,  
Caru balchder, ofer yw  
Caru dim ond caru Duw.

Pan ddel Ange â'i blâu blin,  
I'n treiglo a'n trin yn flin aflonydd,

Beth dâl cyweth i enaid gwan?  
 Yn gorwedd dan ei gerydd;  
 O! mor werthfawr yma 'nawr,  
 Y cariad mawr, a'i wirfawr arfeth,  
 Concweriwr diawl yn cario'r dydd  
 Ar wely prudd marwoleth.  
 Dyna'r pryd bydd gwynfyd ganfod  
 Cariad rhad, maddeuant pechod,  
 A cholyn ange'n ddiawdurdod,  
 O! faint rhyfeddod, hynod yw  
 Trwy gyredd dawn trugaredd Duw!  
 Derfydd byd a derfydd traffeth,  
 Derfydd ofn a derfydd trwbleth,  
 Derfydd ffydd a derfydd gobeth;  
 O! 'r or'chafieth odieth yw,  
 Angorion teg yng nghariad Duw.

Rhyfedd gariad sydd ar g'oedd,  
 Rhyfedd filoedd o asaelion;  
 Cariad rhad yn curo'n drwm,  
 I ddatod cwlwm calon,  
 Wrth ein dryse mae'n ymdroi,  
 Ninne'n ffoi, gan gloi, heb glywed  
 Ei alwad rhyfedd, lawer tro  
 Mae'n achwyn, O! fynyched,  
 Pa sawl gwaith mynase'i galon  
 Dan'i adenydd dynnu dynion,  
 Fel y casgl iar ei chywion,  
 Mewn cynheslon raslon ryw;  
 O! 'r 'wyllys da sy'n mynwes Duw;  
 Dyma'r cariad fu'n rhagori;  
 Patriarchied a phroffwydi,  
 Apostolion a merthyri,  
 Goleuni rheini, glana' rhyw,  
 Cywira dawn, oedd caru Duw.

Ac O! na fyddem ninne'n awr,  
 Yn fach a mawr, yn cofio'i 'mwarded,  
 A maint ei gariad ef heb goll,  
 I alw oll i wylled,  
 Er bod unfed awr ar ddeg,  
 Yn hwyr adeg o anrhydedd,  
 Sef deg gorchymyn heb iachad,  
 Mae cariad yma'n cyrredd;  
 Y nef ei hun yn bwrw o honi  
 Lenllaiin-wych wedi ei llenwi,  
 Rhad efengyl, anwyl inni;  
 O! r daioni hynod yw,  
 Egoriad hael o gariad Duw.  
 Gweddied pawb am nerth a theimlad,  
 I fynd trwy'r byd a'i holl gymysgiad,  
 A'n golwg o hyd ar y Ceidwad—  
 Yn ei gariad enwog yw;  
 Gwna ni yma'n ddoeth, Amen, O! Dduw.

*Ymddengys Rhinallt y Cybydd.*

*Rhin.* Wel, siarad am gariad 'rwyf ti mor  
 gywren,

Mae'n hapus dy lewyrch fedru bod mor lawen,  
 'Rwyf sinne'n ddyn, ped sawn i haws,  
 Ymron torri ar fy nhraws o genfigen.

Mi fedrwn fynd ar fy nglinie'n lanweth,  
 I lwyr felldithio gwyr y gyfreth;  
 Hwyr aethant gyda'u cyfreth gam,  
 Yn filen am fywolieth.

*Car.* Ymgroesa rhag trueni,  
 Peth rhy-gas ydyw rhegi.

*Rhin.* Ni fedra i fadde byth yn iawn,  
 Mi a'u rhegaf pe cawn fy nghrogi.

- Car.* Anfeidrol yw ynfydu,  
Nid y ni sy' i farnu ;  
Mae Gŵr cywir yn y man,  
A wneiff ei hunan hynny.
- Rhin.* Wel, beth ydwyf nes, oni wnaethant hwy'n  
giedd  
Imi dalu'n union heb waetha'n fy nannedd ?  
A gore po gyntaf gan inne am yr hawl,  
Y tynno rhyw ddiawl nhw i ddialedd.
- Car.* Wel, beth pe bai cyfiawnder eglur  
Yn disgyn yma ar bob pechadur ?  
Mae'n rhyfedd iawn fod barn ddiffuant,  
Heb wneyd â ni heddyw'n ol ein haeddiant.  
O ! rhyfedd y cariad sydd i'n cyrredd,  
Hwyrfrydig i lid a mawr drugaredd,  
Fe all maddeuant fod ar gyfer  
Y gwyr o gyfreth mwya'u trawsder.
- Rhin.* Wel, os maddeuir i wyr y gyfreth,  
Fe wneir âg y nhw lawer o ffafreth,  
'Ran ni faddeuan' nhw i undyn mewn un man,  
Oni fydd yn rhy wan i medleth.
- Car.* A'r llathen y mesuront, mae'n wir y siarad,  
Y mesurir iddynt hwythe'n ddiwad,  
O ddiffyg derbyn gras ar daith,  
O gywren berffaith gariad.
- Rhin.* Yr y'ch chwi'n wraig wedi bod ar drafel,  
Yn gwybod peth am Dduw a chythrel,  
A wnewch chwi wrando, heb fod yn ddig,  
Ryw 'chydig ar fy chwedel ?  
Mi draetha'r gwir o'r dechre,  
Fel y bu rhwng fy mrawd a minne,

Am eiddo ein mam, trwy natur flin,  
Yr aethom i drin cyfreithie.

Mae mrawd yn offeiriad ail i Pharo,  
Gwae fi o'm gofid ymhel ag efo !  
Ond mi es i Lanelwy'n gyntaf peth,  
Ac a ddarfum am gyfreth gwafro.

Ac yr oeddwn yn coelio unweth o'm calon,  
Fod pobl Llanelwy'n lled angylion,  
A pheth oeddynt hwythe'n haid,  
Ond diawliaid o hudolion.

Gwrando ar eu nonsens yno'n unswydd,  
"Dowch yma'r cwrt nesa' chwi gewch drefn-  
usrwydd":

O ! mi weriais arian olwg serth,  
Wrth ganlyn eu hanferth gelwydd.

Dweyd wrtha'i rai troie mod i'n siwr o'r treial,  
Am na hidiwn mewn coste, gan gael dywad  
cystal,

"A'r cwrt nesa drachefn fe fydd y mater i  
chwi,"

Ond eisie naw gini i'w gynnal.

Mi fu'm felly'n eu dilyn i dalu, ac i dalu,  
O'r diwedd mi es yn hyllig, wrth o hyd gael fy  
nallu ;

Mi ganlynaf arnyn' hwy'n bur sownd,  
Yn y funud am fy nghownt i fyny.

Ac ni choelia'i na chefes yr hen or'chafieth,  
'Roeddynt hwy o'm cwmpas, fel cwn wrth  
ysglyfeth,

'Doedd dim a wna'i'r tro, fesur dau a'r tri,  
Ond arian yn ddidoreth.

'Roedd cost eu papur yn mynd yn anferth,  
Chwech swllt a cheiniog am bob dimeuwerth,  
Heblaw peth ffiedd iddynt hwythe o ffis,  
At yr offis am eu trafferth.

Ond y felltith iddynt, o wir gaeth ddiodde,  
Fe aeth arna i'n Llanelwy gost anaele ;  
Mi feddylies gwedi, o'm c'ledi clir,  
Mai cyfreth y sir sydd ore.

Mi eis at gyfreithiwr o flaen y sessiwn,  
Wel, fe wnai hwnnwn fanwl imi'r peth a  
fynnwn ;  
A rhwygo, a dondio, a thyngu'i fyn diawl  
Yn ollawl yr ynillwn.

Minne, yn fy ffoledd a werthes fy nghyffyle,  
A 'ngwartheg a fy ychen, gael arian i'w fache,  
A ffio *counsellors* ar draws ac ar hyd,  
'Doedd dim yn y byd a safe.

Ceisio dau wr o gyfreth i goleth ac i ganlyn,  
Un o Ddinbych, a'r llall o Ruthyn ;  
Ond yn y diwedd y fi a fu'r ffwl,  
Nhw aethon a'r cwbl rhyngthyn'.

Canlyn sesiwne, a gwrando Saisonied  
Yn gwneyd dannedd ar eu gilydd a thyngu'n  
galed ;  
Ni chefes i fater yn y byd i ben,  
Ond bilie'r hen benbylied.

'Roedd eu bilie nhw'n hwy rhyngthyn'  
Nag oedd Harri o Lyn Ceiriog o'r sawdl i'r  
coryn ;  
A'r ffigiwrns yn edrych gan dewed a niwl,  
'Run fath a ffyn riwl excismyn.



Mi allwn bregethu am hyn a brygowthen,  
Cyhyd ag o'r Foelas i Allt y Rhiw Felen ;  
Hwy aethant ag arian lond yr hen gôb,  
Ie filoedd, rhwng pob fulen.

Mae'r cythrel yn gyfrwysach, nid rhaid iddo  
frysio,  
Bydd yn sicr o honynt ar ol heno,  
Fe chwery â nhw rwan am yr hawl,  
Ond yn uffern bydd y diawl yn haffio.

*Car.* Rhyfedd y twrw sy mewn drwg naturieth,  
Yn cablu ac yn ymladd mewn amlwg elynieth,  
Och ! faint o ddyrgioni, trueni tra hynod  
Sydd mewn ariangarwch yn gwyro rhai i  
bechod !

Dyma chwi'n rhoi bai ar gyfreithwyr trawsion,  
Heb ystyr na gweled beie'ch hen galon,  
Cariad a'i archwaethiad rhwng eich brawd a  
chwithe  
Allse, heb ddim dychryn, gytuno cyn dechre.

Ond cyfoeth fâg falchder, a balchder o'i berchi,  
Fel dial taledig, sy'n magu tylodi,  
A thylodi i rai, mewn llid a chynddaredd,  
Sy'n debyg o ddwad i fagu drwg ddiwedd.

*Rhin.* A glywch chwi, onid wyt yn pregethu ar  
redeg,  
Mor chwynn a'r cyfreithwyr, ond eu bod hwy  
yn Saesneg,  
Am ddim wy'n ei ddeall o'th siarad di,  
Mae Lladin i mi mor llwyrdeg.

*Car.* Ai nid wyt yn deall y gwir wrth ei wrando?

*Rhin.* Gwell 'rydwy'n deall 'mod i wedi f'andwyo.

*Car.* Os colli d'ened, bydd mwy dy drueni.

*Rhin.* Beth ydyw ened wrth y byd a'i ddaioni?

Fy nefed, a'm gwartheg, a'm haur, a'm harian,  
A'r gwair, a'r yd o'r ysgubor a'r ydlan,  
A'm holl gêr hwsmoneth, cyweth cu,  
A golles o'r ty ac allan.

*Car.* O! nad alle, o'ch holl drueni,  
Amynedd a chariad yma'ch oeri,  
Er maint sydd o groese, briwie brad,  
Mae cariad yn rhagori.

*Rhin.* Cariad go wladedd sy lle bo tylodi,  
Ni edrychir fawr arnaf, mi allaf farw yn 'r  
oerni;

Ar ol mynd yn dlawd, ni fydd gan neb yn y wlad  
Yma damed o gariad imi.

*Car.* O! mae cariad pur yn cyrredd  
O ymysgaroedd Tad trugaredd;  
Derbyniad rhad sydd mewn addewid  
I'r tlawd a'r llwythog, isel ysbryd.

*Rhin.* Nid yw fy ysbryd ddim yn isel eto,  
Er fy mod i yn eiddil o ran eiddo,  
Mi felldithia' ac mi dynga' ac a alwa'r diawl,  
Ac a rega'r sawl a' ngrugo.

*Car.* Rhyfedd mor druenus yw dy drinieth.

*Rhin.* Yr ydwyf fel digon sydd yn y gym'dogeth.

*Car.* Ow, beth am farw gwedi'r cwbl?

*Rhin.* Ymgrogi neu foddï, fyddai weithie'n  
feddwl.

*Car.* Ymgroesa, gweddïa rhag drwg ddiwedd,  
'Rwyf yrwan yn deilwng o uffern a'i dialedd.

*Rhin.* Nid oes imi na hwyl na hedd,  
Digllonedd sy'n fy llanw.

*Car.* Digllonedd ysbryd yw'r gofidi,  
A'r pryf cydwybod sydd byth yn poeni ;  
Edifarhewch, a throwch at Dduw  
Rhag syrthio i'r cyfryw drueni.

*Rhin.* A dâl imi droi yn fy nghrynsyth fel yma,  
Megis pe trown i'r groesffordd nesa',  
Neu droi wrth aredig yn ddidig ddwys,  
A tharo i'r gwys agosa' ?

*Car.* Rhaid i chwi'n gyntaf deimlo'n bwysig,  
Eich bod mewn cyflwr llwyr ddamnedig,  
Ac nad oes fodd o'ch rhan eich hun,  
I chwi fod yn ddyn cadwedig.

*Rhia.* Wel, dyna anobeth felly'n dechre,  
Mi a fyddaf yn ei chanol yn waeth na chyne.

*Car.* Na, dyna lle mae'r Meddyg rhad  
Yn datguddio i gariad gore.  
Y newynog, a'r sychedig, a chalon ddrylliad,  
A'r tlawd, a'r blinderog, a'r llwythog mewn  
llithriad,  
Dyna'r rhai y mae Prynwr hedd  
Yn eu cyrredd yn ei gariad.

*Rhin.* 'Rwyf finne'n ddyn atgas, diras, dirym,  
A chwedi ymrwystro mewn llawer ystum ;  
Os medr ef newid un mor annuwiol,  
Fe fydde'n gymhwys iddo gael ei ganmol.

*Car.* Gyda pharch dyledus dylid ei gofio,  
Mae pob rhyw beth yn bosibl iddo,  
'Does eisieu dim ond gwir adnabod  
Y modd y mae fe'n Iachawdwr pechod.

*Rhin.* Ow! beth a wna'i 'rwan, a minne mor euog?

*Car.* Credu ac edifarhau'n rhywiog.

*Rhin.* Pa beth ychwaneg yw'r cychwyniad?

*Car.* Gwrando'r Gair a'i dderbyn trwy gariad.

*Rhin.* Pa le gwrandawa'i ore, dywed?  
Pa un ai Disentars ai Methodistied?  
Mae, achos fy mrawd a ddygodd fy mri,  
Gasineb rhyngwyf fi a phersonied.

'Rwy'n coelio bydd uffern yn bur ddiffeth,  
Rhwyng personied a gwyr y gyfreth,  
Nid ae neb yno ar gost yn y byd,  
Os gellir diengyd ymeth.

*Car.* O! taw a chodlo d'ofer chwedle,  
Can's anystyriol iawn yw d'eirie,  
Os cefest gam ym mheth'e'r byd,  
Meddwl y dylid madde.

Gwrando'r Gair lle bo'i berffeithrwydd,  
Dysg farw i'r ddeddf, a byw i'r Arglwydd,  
Dyna yw'r nod sy'n bod yn bur,  
Yn Nuw i greadur newydd.

*Rhin.* Onid oes gan y Babtist yma ryw bwti  
A olchai fy nhrachwant, pe baid yn fy nbrochi?  
Mae rhai yn rhuo ac yn dwndro ar daith,  
Fod rhinwedd yng ngwaith y rheini.

*Car.* Ni thal traddodiade a donie dynion,  
Mewn gwin ac olew, heb gyfnewid y galon,  
Nid yw elusene na gweddie maith,  
Heb gariad, ond gwaith gwirion.

Tri Chryfion Byd. 95

*Rhin.* Mi dynna'r gorchudd oddiar fy ngwyneb,  
Ac a daflaf yn landeg holl offer creulondeb,  
Mi ddiosgaf wisgiad cybydd-dod blin,  
Ac a ildiaf i drin duwioledeb.

*Car.* Dyna'r modd gore mewn hawddgarwch,  
Dilyn bur gariad ar fwriad edifeirwch.  
Mae bendith i bawb fydd felly'n byw,  
Cyhoeddodd Duw ei heddwch.

[*Diflanna Cariad.*

*Rhin.* Wel, bobl anwyl, mae'n bryd blino  
Ar drwst y byd a'r cwbl sy ynddo ;  
Cariad a heddwch wrth angenrhaid,  
I'm henaid 'rwy'n ddymuno.

'Rwy'n profi yn fy nghalon fwy o ddiawled  
Nag fu ar elw undyn o 'nifeilied,  
Ni fu Cain a Saul, na Suddas ar droed,  
Nag Esau erioed mor gased.

Gobeithio ca'i nerth oddi uchod,  
I ymadel â llygredd pechod,  
Ac i edrych ar y ddaear fyddar fud  
A'i thrysore i gyd fel sorod.

Ni feddwn o'n rhan ein hunen,  
Ond melltith lliid a chynnen ;  
Oni chawn brofiad o'r cariad gwir,  
Ni a fygir gan genfigen.

Dymunwn gael trugaredd,  
Yn rheol y gwirionedd,  
Yn sffordd yr heddwch a'r mawrhâd,  
Lle mae'r cariad rhad yn cyrredd.

*Ymddengys Syr Tom.*

*Tom.* Name of goodness, yr hen gadno  
Ydych chwi'n dal ati eto?  
Beth, a ddarfu rywun, sydyn sail,  
Eich newid a'ch ail *renewio*?

*Rhin.* 'Rwy'n dechre newid fy ffordd annuwiol,  
Mi fum ormod ysyweth yn was i'r diafol.

*Tom.* Ai ymrafel cyflog fu'n gwneyd i chwi,  
Ymado'n ddiamodol?

Ffei, rhyfedd gennyf fi eto,  
Na fyddwch yn tynnu i ail gytuno;  
Mae'n arw i'r gwas ac ynte'n gâr,  
Oddiwrth hen feistar fwstro.

*Rhin.* O! taw â'th ynfydrwydd, peth anfeidrol  
Yw meddwl mynd i fyd tragwyddol.

*Tom.* Mae rhai'n mynd yno mewn 'chydig bach,  
A fydde'n iach ryfeddol.

*Rhin.* Rheitia yn y byd i bawb ystyried,  
Mater mawr yw cyflwr ened.


*Tom.* Wel, odid gybydd hyd yn hyn  
A welais cyn dduwioled.

Yn mh'le y cymerodd hi chwi, heb gam eirie,  
Yn eich pen, neu eich , neu rai o'ch aelode?

*Rhin.* Yn fy nghalon eigion i  
Mae'r dychryn wedi dechre.

*Tom.* Fe ddechreuodd felly o ddethe,  
Yr unig lannerch yw'r calonne,  
Cyrredd cariad a phrofiad fri  
Am ened bo chwi a minne.





CARIAD AC ANGAU.

(*Darlun gan A. E. Elias*).

" Mae lle i mi eto godi mhen, er bod dy sen di'n hagar ;  
Ni cllaist niwed a'th law gref i Arglwydd nef a daear."

*I wynebu tud. 97.*



Mae cariad yn cuddio'n ddie,  
 Luaws afrifed o bechode,  
 Ail ymwisgo er llwyddo'n llon.  
 Yn y funud hon wnaif inne.

*Rhin.* Mae'n bryd i ni bellach bwylo,  
 Ynfydrwydd ini ddal i foedro,  
 Oblegyd mae'r amser, dymer dwys,  
 Ag y dyle fod pwys, yn pasio.

O ! 'r amser gwerthfawr odieth  
 Aeth genny'n ddiame ymeth,  
 Yn dilyn gwagedd lygredd lid,  
 Drwy hoffi y byd a'i draffeth.

*Tom.* Mae dynion yng Nghymru heno,  
 Lawer, wedi eu lled oleuo,  
 Ac er hynny a bywyd rhydd,  
 Yn ddiiffrwyth o grefydd effro.

*Rhin.* Dyna ydyw'r ddamnedigeth,  
 Ddyfod goleuni i'r byd mor heleth,  
 A dynion yn caru y tywyllwch ffri  
 Yn fwy na'r goleuni glanweth.

'Ran y gwas a wybu'n eglur  
 Ewyllys ei arglwydd heb ei gwneuthur,  
 A geiff ei ffonodio â llawer loes,  
 Ac nid yw ond moes gymesur.

*Tom.* Mae yma ddy'n'on a wyr drwy ddonie  
 Mai drwg yw meddwi'n lle mynd adre,  
 Ond fe all rhai fod yn moedro ac yn pwnio peth,  
 Mewn barieth cyn y bore.

Ac fe alle ieuencyd hwythe  
 Ymdroi'n rhy garedig efo'u cariade ;  
 Ac y bydd rhai'n barnu mai ni trwy'r byd  
 A'u tynnodd.

*Rhin.* Fe ddarfu am hynny i ni rannu'r gwirionedd,

Ac ni allwn wrth dwyll, na rhagrith, na llygredd,  
Mae llawer dan bregeth, fel Suddas eu brawd,  
Yn d'rysu mewn cnawd a'i drosedd.

Ond fe ddichon y rhai mae Duw'n eu caru  
Gael y Gair yn gweithio drwy ffolineb pregethu,  
Can's mae pob peth lle mae cariad ynglŷn  
Yn gweithio mewn dyn er d'ioni.

Gwyn ei fyd a gaffo ei gyflwr  
Yng nghariad y Gwardedwr ;  
Ni waeth pa beth a fo Ange drud,  
Cwynion y byd, na'r cynnw'r'.

Peth anhawdd i wraig anghofio  
Ei hanwyl blentyn sugno,  
Ond er i honno ei garu yn iach a chla',  
Mae'r cariad yma'n curo.

Mae hwn yn dal mewn undeb,  
I garu yn nhragwyddoldeb,  
Pan ballo fydd a gobeth gwiw,  
Mae llawenydd Duw'n ei wyneb.

*Tom.* Yn mhle doir hyd i'r fath gariad diddarfod?

*Rhin.* Ynnom ein hunen mewn rhan hynod ;  
Mae pob pechadur gwaetha'n fyw,  
Ac elfen Duw'n ei waelod.

Anadliad o'r cariad gore  
Ydyw ened pob dyn o'r dechre,  
Ond fe gollwyd yn Adda, ddalfa ddwys,  
A chadarn bwys pechode.

Ond mae'r garreg callestr er y collo,  
Mewn dwr neu ddaear, a'i darnio a'i duo,

Tri Chryfion Byd. 99

Fe ellir yn glir, drwy foddion glân,  
Ennyn y tân o honno.

Ac felly'r pechadur oerddu,  
Pan ddechreuo'r Gair gynhyrfu,  
Mae fel corsen ysig yn cael ei drin,  
Neu megis llin yn mygu.

Mae Eneiniog yr Arglwydd yn ymguddio  
Tu hwnt i'r dodrefn, ond edrych am dano,  
A rhaid chwilio am ddryll arian wedi colli'n swrth  
Mewn gobeth wrth ysgubo.

Yn y maes mae'r perl a guddiwyd,  
Rhaid cloddio yn y man lle'i claddwyd,  
Ac mae yma bridd a cherrig bras,  
Yn dewdwr cas, lle'i dodwyd.

O ran fe chwyddodd bridd coch Adda,  
Gan gymaint fu o chwalu wrth balu a chybola,  
Ni cheiff neb ffrwyth o ddaear ffres  
Lle darfu i Foses faesa.

Ond fe aeth rhyw wr a'i arad',  
Heb droi yn ol ei edrychiad ;  
Ac mae ganddo hadyd yn ei hau  
Sy'n cyrredd cwyse cariad.

O lafur hwnnw 'roedd y wreigan honno  
Yn cael y blawd i'w lfeinio,  
Ac effeth y lfen, ffrwyth y loes,  
A dreiddiodd ei thoes hi drwyddo.

A'r bara hwnnw'n burion,  
Archwaethodd y Mab Afradlon,  
Pan oedd ar lewygu, ymbell o'i wlad,  
Fe gofiodd ei Dad oedd gyfion.

Er darfod iddo bechu,  
 'Roedd e'n blentyn mewn rhan, er hynny ;  
 Ac nid y gweision, ond y gwir blant,  
 A fyddant i etifeddu.

*Tom.* Wel, y mae yma amryw'n barnu  
 Dy fod di ar y gwaethaf i bregethu,  
 Canys beth a dâl pob eitha dysg,  
 Os ceiff drwg yn ein mysg gymysgu ?

*Rhin.* Onid ydyw'r ddoethineb wedi ei thaenu,  
 I adel i'r gwenith a'r efre gyd-dyfu,  
 Hyd nes y delo'r clirio clau,  
 Diwrnod glanhau'r llawrdyrnu ?

Ar hen lawrdyrnu, pe baem ni'n dirnad,  
 Y cadd teml Solomon gynt ei seiliad,  
 A hen lawrdyrnu yw calon dyn,  
 Lle dyle fod 'run adeilad.

Mae calon pechadur, pe coeliem ni'r chwedel,  
 'Run fath a *Hall* Farchnad, neu lawrdyrnu'r  
 cythrel,  
 Ond awdurdod y Gair, diwair da,  
 Eill wneuthur yma Demel.

Ond mae gwneyd temel o gnawd tomlyd,  
 Ran elw i'r gweithwyr gael gwthio'u celfyddyd ;  
 Ychydig sy'n ceisio ymbwyso a byw,  
 A theml Duw yn yr ysbryd.

Mae gwenieth diawl yn gwneuthur eulun,  
 Clwt newydd a'i wnió i fritho'r hen frethyn,  
 Un diawl Pharisead yn gweled gwall,  
 A diawl arall yn deiliwryn.

Fel hyn mae'r noeth am wneuthur  
 Arffedoge o ddail ffigys natur,

Yn lle gwneyd aberth o gnawd Oen,  
A gosod y croen yn gysur.

Mae duwie'r sarff yn erbyn cyflwr  
Hollawl bechadur, a hollawl Achubwr ;  
Yna mae'r hunan yn codi mewn rhoch,  
Fel y clywsoch, yn dacluswr.

Gwnaeth dewinied yr Aifft yn fedrus  
Ddarluniad o wialen Moses ;  
Ond yr oedd gwialen cariad, er hynny i gyd,  
Yn llyncu'r bywyd beius.

*Tom.* Wel, 'rwyf yn traethu geirie.  
Nid gweddus mae rhai'n eu godde,  
Oblegyd eu bod yn siarad syn,  
I ddal atyn mewn interliwdie.

*Rhin.* P'run ellir gredu fwyaf gw'radwydd,  
Ai person mewn gwenwisg yn pregethu cel-  
wydd,

Ai'r gwir gerbron, mewn gwisgiad brith,  
'N ddiragrith ar euogrwydd ?

Pe bai blentyn mewn 'stabl yn cael ei eni,  
A raid i hwnnw fod yn geffyl, o ran hynny ?  
Ac fe dd'wedir weithie, mai'r gore i gyd,  
A ddaeth i'r byd o'r beudy.

*Tom.* Mae natur Balaam eto'n gyndyn,  
Er bod cleddyf noeth yn ei erbyn ;  
Gwell ganddo derfysgu, er cael gwasgu ei goes,  
Na gwrando *noise* gan asyn.

Ond mae interliwdie, wiw dweyd amgen,  
Yn bur debygol i'r biogen,  
Yn frith ar ei thro, ac ysgoewedd ei threm,  
Ddaw hi byth yr un glem a'r g'lomen.

*Rhin.* Wel, gwrando di eto atad,  
 'Roedd y gigfran a'r biogen a'r g'lomen 'run  
 glymiad,  
 Yng nghyda phob peth oedd yn haeddu parch,  
 Yn diluw yn 'r arch 'run daliad.

A phob creadur yn ol ei gyflwr,  
 Yn dangos gogoniant y Creawdwr ;  
 Ond y llew a'r oen a'r g'lomen glau,  
 Oedd deip o rannau'r Prynwr.

Ond gwaelod y dirgelwch,  
 Sy'n cyrredd gwir hawddgarwch,  
 Yw adnabod y drefn, ydyw'r Un yn Dri  
 Ynnom ni'n cyhoeddi heddwch.

Dyna'r lle mae'r teyrnasiad hwnnw,  
 Nid wele yma, neu wele acw,  
 Pe baid yn gweld fel hynny'r gwir,  
 Fe fyddai ar dir lai o dwrw.

A llai o farnu llygredd,  
 Gwas un arall yn gas ac oerodd,  
 'Ran i w Arglwydd ei hun, mae pob un lle bo,  
 Yn sefyll neu syrthio'n serthedd.

Mae pawb wrth natur yn gyd-wastad,  
 Fel y cauer pob gene rhag un derchafiad,  
 Rhaid i bob un o dan eu baich,  
 Gael eu codi gan fraich y Ceidwad.

*Tom.* Wel, gâd ei chadw ar hyn o chwedel,  
 A chanu pennill wrth ymadel ;  
 Rhai safon llonydd yn eu lle,  
 Cânt glywed hoff eirie o ffarwel.

Yr EPILÔG, neu'r DIWEDDGLO.

*Alaw*: "MILLER'S KEY."

Y pur wrandawyr diwyd  
Sy'n hyfryd am fwynhau,  
Y cnoad cil, egniad calon,  
O SEION i'w brashau,  
Gobeithio am bawb weithian,  
Yn 'r unfan yn ddi-roch,  
Nad ydyw dysg yn cymysg yma  
Fel taflu manna i'r moch;  
Chwi welsoch yma o hyd  
Rhyw bynciau o ddull y byd,  
Yn dangos nad yw mawredd  
Heb gariad a thrugaredd,  
Ond gwagedd oll i gyd;  
Mae tlodi hynod lun,  
Fel deddf yn rhwymo dyn,  
Rhaid cael yn rhad fawrhydi,  
Neu weithio rhag tylodi,  
Trwy boeni'n gaeth bob un.



## PAWB DAN WYBR.

*Can yn rhoddi hanes yr Awdwr hyd bedair blynedd  
ar ol ei briodas.*

ALAW : " *Y Galon Drom.*"

**P**AWB dan wybr sy'n fadnabod,  
Clywch fy nghyffes, hanes hynod,  
Am y blinder 'r ydwyf ynddo,  
Dymer astrus, wedi ymrwystro ;  
Aml drafferth anferth ynfyd,  
Ac aml drymder a ges ar gyfer, gasa gofid ;  
Er nad wyf ond ifanc eto,  
Ces fwy anras na rhai sy'n naddas wedi heneiddio.  
'Roedd ynnw i ysbryd, anian asbri,  
Rhwydd erioed am ryw ddireidi,  
Yn mynnu llywio mwy na llawer  
Ymhob canlynieth afieth ofer ;  
Nid oedd am wagedd, agwedd egwan,  
Yr un i'w ganfod, gellwch wybod, mwy pen-  
chwiban ;  
Prydyddu a chanu mewn awch hynod,  
Y fi oedd hoewedd am wawd a maswedd wedi  
ymosod.  
Bum felly'n rhy-hir fyw'n rhy ehud,  
Yn ol cwrs fy natur ynfyd ;  
O'm poenau doriad pan ystyries,  
F' awydd flysig mi ddiflases ;  
Gan ofni'r awn yn llawn afluniedd  
A mwy amharchus, am uno'n farus mewn  
oferedd ;  
Mi ymrois i goelio 'nghalon ddfiri,  
Mai mwy parchedig, wedd puredig, oedd priodi.  
A hynny a wnaethum, ystum astud,  
Ymhen ychydig unig ennyd



Mi eis tan gwllwm, ias tynn galed,  
 Ystad briodol, radol rediad ;  
 I Dduw bo'r clod ein bod yn bydio  
 O hyd mor gytun ag odid ddeuddyn sy'n cyd-  
 ddyddio ;

Er cael ar goedd flinderoedd dyrus,  
 Ni chadd eto ddim ein rhwydo'n anghariadus.

Yr ym ni'n llywio a rhwyfo'n rhyfedd  
 Y byd oer blin ers peder blynedd,  
 Drwy gael ger bron gollodion lliidiog,  
 A rhai yn friwie rhy afrywiog ;  
 Ces gost oedd lydan yn adeiladu,  
 A chost anaele o ran ceffyle oedd imi'n ffaelu ;  
 A rhwng pob cost, mae'n dost y testun,  
 A gwael ddechreuad, diweddiad caled oedd yn  
 canlyn.

Er hynny'r oedd, er maint fy mlinder,  
 Os cawn fy hoedl, gennyf hyder  
 Y gallwn dalu i bawb eu dyled,  
 Os peidie neb a gwasgu'n galed ;  
 Fe a wyr digon na wnaeth diogi,  
 Oferedd farus, na gwag ewyllys, i mi golli ;  
 Mi wn heb gamwedd fy mod gimin  
 Yslaf, oblegid agwedd wendid, ag oedd undyn.

Er hyn ni cheir, os eir i drwbwl,  
 Ond pawb yn siarad wrth ei feddwl ;  
 Sawl elo i lawr dan draed cynlleidfa,  
 Siawns y ceiff mo'r chwara teca ;  
 Os darfu i minne fentro gormod,  
 Yn f'awydd-chwant, gwaew seibiant mi ges  
 wybod ;

O chwant cael blewyn glas i bori,  
 Mewn dyrswch y mae, gwybyddwch, amryw'n  
 boddi.

Ond llawer milwaith y canmolir  
 Yn ddwysgu a breiniol ddysg a brynnir ;  
 Ond iach addysgu dyn i deimlad  
 Os gwael y priffa yn ysgol profiad ;  
 Mi brynnes inne synwyr purddrud,  
 O eisie credu, cyn fy chwalu, pwy i ochelyd ;  
 Y rhai oedd oreu genny' ymddiried  
 Wnaeth i mi'n ddyrus, feie gwallus, fwya o  
 gollod.

Gwae erioed a ymddiriedo  
 Yr addewidion teca ddwedo ;  
 Nid yw eu heddwch pan gynhydder  
 Ond megis Joab yn lladd Abner,  
 Neu ail i gusan Suddas fradwr,  
 Werthai'n flysig, o ran ychydig, ein Hiach-  
 awdwr ;  
 Mae'r unrhyw gnydiau natur gnawdol,  
 A'r unrhyw drachwant, eto a'u tyfiant o'u tad  
 diafol.

Chwi glywsoch fel bu'n amser Isrel  
 Gyngor tewffelst Ahitophel,  
 Mae eto ddyinion union enw,  
 Ymgais henedd, megis hwnnw ;  
 Naturieth dyn sy am dynnu'n gyfan  
 Bob awdurdod eiddo hynod, iddo'i hunan,  
 Yn ail i gerddor pan ddatgano,  
 Chwannog ydyn i gadw a dilyn gyda'u dwylo.

'Roedd genny ffrindie gore i'w gweled  
 Nes yr aethum i gaethiwed ;  
 Pan aeth yn waelach fy mywolieth  
 Y rhain trwy siomiant a droes ymeth ;  
 A chan fy nheulu ces anhwyliad,  
 A mwy gelynieth, atcas drinieth, nac estronied ;

'Roedd ffryns a cherent mewn awch oerion,  
Ces fwy hawddgarwch, digam degwch, gan  
gymdogion.

Y rhai feddylies, ryfedd olwg,  
A ddaethe i'm canlyn drwy bob cilwg,  
Dyna'r rhai, pan oedd cyfyngdra,  
Gwaeledd bwyll, a giliodd bella ;  
A rhai diesgus heb eu disgwyl

A safe heb rwgnach imi'n burach hyn o berwyl,  
Ac felly dynion, er pob donie,  
Sy'n anodd hynod eu hadnabod wrth wynebe.

Gallaswn weled caled gwllwm  
Yng ngair gwr duwiol, raddol reswm,  
Fod calon dyn yn llawn o ddistryw,  
A drwg diobeth odieth ydyw ;  
Son am ddrwg sy o'r dechreuad,

Erioed hyd yma, y mae plant Adda o'r un  
tueddiad ;

Pawb am foddio chwant ei feddwl  
Wrth naturieth, dyna'n gobeth ni oll yn gwbl.

Ychydig iawn mewn dawn diwenieth  
Sy'n medru gostwng o'u naturieth,  
Ac yn fodlonus, raddus roddiad,  
I wyllys Duw ymhob digwyddiad ;  
Y da a'r drwg sy'n amlwg ymlyn,

Oddiwrth yr Arglwydd mae pob arwydd  
digwydd dygn ;

Ar einioes angau, cyfoeth, tlodi,  
Gair yr Arglwydd, sain wir hylwydd, sy'n  
rheoli.

Nid edrych Duw sy'n holl-wybodol  
Fel yr edrych dyn anianol,  
Ei farne doethwych, haelwych helynt,  
Anchwiliadwy ac uchel ydynt ;

Yr hyn fo ddrwg yng ngolwg dynion  
 A eill fod wedyn yn dilaioni wrth air Duw'n  
 union ;  
 Mae ganddo Efi bob rhyw Gristion  
 Groes a chystudd cwyn o gerydd cyn y goron.  
 Y rhai fo cariad Crist i'w hennill,  
 Rhaid gado'r holl gariade erill ;  
 O ran nad oedd un dyn a ddichon  
 Wir wasnaethu Duw a Mamon ;  
 Gobeithio y gall hynyma o gledi  
 I minne ddwad, eirwr dyniad, er daioni ;  
 Duw, dod i mi ffydd ffyddlongar,  
 A bydded d'wyllys, oreu ddewis, ar y ddaear.

## CYDNESED POB DYN ISEL.

*Cerdd am ddamwain ryfeddol a fu wrth Bont  
 Rhuddlan, sef i wagen a thair tunell ond troedfedd  
 o goed redeg ar draws drwy goes y Prydydd, ac heb  
 dorri'r esgyrn.*

ALAW : "Gwel yr Adeilad."

**S**YDNESED pob dyn isel,  
 I wrando llafar chwedel,  
 Llef hen bechadur ;  
 Gŵyr llawer dyn am dana,  
 Fy mod yn un hynota  
 Dan wynie natur ;  
 Drwy'r byd fy hanes aeth o hyd—  
 Am bob ynfydrwydd, a sur wagsawrwydd,  
 Bum fel yn arglwydd, neu frenin ebrwydd fryd,  
 Nes i mi hau a'm gwagedd  
 Dir Gwynedd draw i gyd—  
 Swydd syn, bum felly'n chwalu chwyn,  
 Hyd feusydd trachwant mewn ofer nwyfiant,

Cydnosed Pob Dyn Isel. 109

Gan chwydu 'nrygchwant fel y llyffant ar fol llyn;  
Danghosodd Duw drugaredd  
Yn rhyfedd i mi er hyn.

Ces lawer galwad gole  
Trwy nerth a rhagluniaethe  
Duw cyfiawn ethol;  
Gorchymyn ar orchymyn,  
A lein ar lein wir llyn,  
O'i air olynol;

Uwchben fy egredd lygredd len,  
Bu ganwaith gynnyg marwolaeth beryg  
Gan goed a cherryg; ond, er pob sarrug sen,  
Nid oeddwn o'm trueni  
Yn profi mwy na'r pren;  
Ces faith lwyr gofid lawer gwaith,  
Trwy ffalsder dynion a llid gollledion,  
'Nifeiliaid meirwon ac amryw greulon graith;  
Gollyngais oll yn ango  
Heb fawr deimlo f'ofer daith.

Er bum yn cael i'm calon,  
Awelon iach o dirion  
Wir iechydwrieth;  
Rwy' rwan yng ngwlad estron,  
Nid allai'r gerddi Sion  
Fawr gwrdd ysyweth;  
Mi ges fy ngollwng yn fy ngwres,  
Ar ol fy chwante a'm cnawdol nwyde,  
Nes i'm serchiadau fyn'd fel peirianne pres;  
Oni wneir fi gan yr Arglwydd  
O'r newydd nid wyf nes;  
I lawr, fe ddarfu 'nodi'n awr,  
Gobeithio ar fwriad fy nwyn i deimlad,  
Er mwyn i'm henaid i ailweled nefol wawr;

Fy hoedl cadwai'n hynod,  
Er maint fy mhechod mawr.

Fel Dafydd mi fynega  
Y modd mae'n ddyled arna,  
Waith Duw'r cadernid ;  
Yr hwn o'i drugarowgrwydd,  
Yn ffrwd fy ffrwst a'm hawydd,  
Achube mywyd ;

Llef llwm pan dorre'r cloie clwm,  
A'r wagen rwygwedd ar balmant egredd,  
Tan lwyth helaethwedd, chwech ugain troed-  
fedd trwm,  
Aeth tros faelode ar gerdded,  
O saled oedd fy swm !

I'm craith bu garw dwrw ar daith ;  
A diawl a'i deulu yn dweyd fy nibenu,  
Ond Duw er hynny a'm daliai i fyny'n faith ;  
Boed iddo byth heb fethiant  
Ogoniant am y gwaith.

At helpu nghlwyfe anafus,  
Damweiniodd fod wrth f'ystlys  
Wir foddus feddyg ;  
Yr hwn mewn 'chydig ddyddie  
Trwy Dduw a wnaeth faelode  
Yn ddiffaeledig ;

Gwna i mi, O Dad, dy ofni di,  
A thro fi i deimled fy mawr ymwarded,  
Pâr i mi weled trwy gred a phrofiad ffi  
Y galon galed gulaidd  
'Nifeiledd sy ynnof fi ;  
Yn ffraeth dadseinia d'air fel saeth,  
I'm dwys rybuddio rhag pechu eto,  
Gwna i mi gofio ail ddeffro'n ol a ddaeth,

Cydneseid Pob Dyn Isel. 111

Rhag ofn am fyw'n ddideimlad,  
Gael gweled golwg waeth.  
Tro ataf, Arglwydd cyfion,  
A meddalhâ fy nghalon  
Yng nghôl dy fendith ;  
Gobeithio, dad, gobeithio,  
Na roddest fi fel Pharo  
'N' offeryn mellith ;  
O ran 'dwy'n gweld ond gallu gwan  
Genny' i gynhyrfu at edifaru,  
Er cael heb gelu fy maeddu'n llawer man,  
Ond fel mab Noah'n gwawdio  
Ar ol ymlusgo i'r lan,  
Ar dir, fel Naman 'rydwy'n wir,  
Yn nerthol rymus o gnawd trachwantus,  
Ac eto'n warthus, 'rwy'n wahanglwyfus glir,  
O ! Arglwydd, tyrd i'm helpu  
A hynny cyn bo hir.  
Caeth forwyn fy nghydwylbod  
Sydd imi o'i rhade hynod,  
Yn rhoi dy hanes,  
Mai ti yw'r Proffwyd penna,  
Sy a'i ymward yn Samaria  
I'w dda erddiwes ;  
'Mhob llun darostwng di fy ngwŷn,  
Na'd i mi drydar am Abna a Pharphar,  
Afonydd siomgar fy hagar wlad fy hun ;  
Tro fi i'r Iorrdonen gyhoedd,  
Sef dyfroedd Mab y Dyn ;  
Nid oes all olchi bryntni foes,  
Ond gwaed yr Iesu, yr hwn a ddarfu  
Drwy ange drengu, gan grymu ar ben y groes,  
Ow ! gad, er imi bechu,  
Duw, lechu yn dy loes.

Ni rodest, Iesu tyner,  
 Mo'th werthfawr waed yn ofer  
 Dros fyf anafus ;  
 D'efengyl sy'n rhoi galwad,  
 I bob rhyw bechaduried,  
 O'u beichie dyrus ;  
 'Rwy'n un pechadur amhur wŷn,  
 Nad oes mo'm dwysach, a ffyrdd ffeiddiach  
 Ymhob cyfeddach, anuwiol afiach lun ;  
 A chalon ddrwg yn wastad,  
 Ddideimlad o Dduw a dyn ;  
 Bum hy', fel mab afradlon fry,  
 Yn treulio f'amser, ymhob gwag bleser,  
 'Rwy'n awr mewn caethder, er faint o falch-  
 der fu :  
 Mae ngolwg ar fy ngwaeledd,  
 Yn ofni dialedd du.  
  
 Duw, gwna imi gan fy newyn,  
 Gynhyrfu ymroi a chychwyn  
 I 'mofyn llunieth :  
 Na ad im' sioni 'nghalon,  
 Trwy 'mborthli ar gibe gweigion  
 Gorwagedd barieth ;  
 O ! Dduw, dod imi fanna i fyw,  
 Dod olwg lliwgar i'th weld yn hawddgar,  
 'Rwy'n ddall, rwy'n fyddar, dod imi glaiar glyw,  
 Wyt nefol fuddiol feddyg  
 O'th wir garedig ryw ;  
 Pob syth oer drwst ragrithiol druth  
 Dadwreiddia o'm hysbryd, a dysg fi'n astud  
 Yn ffordd y bywyd, dda lwyrfryd yn ddi lyth ;  
 A dod, Amen, ddymuniant  
 I ganu'th foliant fyth.



# CYFRES Y FÏL.

---

Y mae y cyfrolau canlynol wedi eu cyhoeddi:

*Cyfrol 1901.*

DAFYDD AP GWILYM.

*Cyfrolau 1902.*

GORONWY OWEN. Cyf. I.  
GORONWY OWEN. Cyf. II.  
CEIRIOG.  
HUW MORUS.

*Cyfrolau 1903.*

BEIRDD Y BERWYN.  
AP VYCHAN.  
ISLWYN.

*Cyfrolau 1904.*

OWEN GRUFFYDD.  
ROBERT OWEN.  
EDWARD MORUS.

*Cyfrolau 1905.*

JOHN THOMAS.  
GLAN Y GORS.  
GWILYM MARLES.  
ANN GRIFFITHS.

*Cyfrolau 1906.*

EBEN FARDD.  
SAMUEL ROBERTS (S.R.).  
DEWI WYN.

*Cyfrol 1907.*

JOSHUA THOMAS.

*Cyfrolau 1908.*

IEUANGLAN GEIRIONYDD  
FICER PRICHARD.

*Cyfrol 1909.*

ALUN.  
TWM O'R NANT.

Ereill i ddilyn.

Pris 1/6 yr un; 1/1½ i danysgrifwyr.

I'w cael oddiwrth R. E. Jones a'i Frodyr, Conwy.

Anfoner enwau tanygrifwyr i O. M. Edwards, Llanuwchllyn, neu i R. E. Jones a'i Frodyr, Conwy. Gellir cael yr olgvfrolau, neu ddechreu gyda'r gyfrol hon.

Yn unffurf a'r clasuron, ac am yr un bris, cyhoeddir

GEIRIADUR CYMRAEG.

Seiliedig ar waith y Dr. John Davies o Fallwyd a Thomas Jones.

Amcan y gwaith hwn yw rhoddi cymhorth parod a hylaw i rai ddarllen a deall llenyddiaeth Gymreig. Ceir ynddo hen eiriau na cheir yn y geiriaduron cyffredin. Tybir mai ar gynllun y geiriadur hwn y ceir, ryw dro, Eiriadur Cymraeg perffaith.

